# CBAC Lefel 1/Lefel 2 TAAU Gwasanaethau Cyhoeddus

## Manyleb Ddrafft

I'w haddysgu o fis Medi 2027
Dyfarniad Cyntaf 2029

Manyleb DRAFFT yw hon. Felly, dylai canolfannau ddisgwyl rhai newidiadau yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir ym mis Medi 2026.

DRAFFT

| | |
|---|---|
| Teitl y cymhwyster | CBAC Lefel 1/Lefel 2 TAAU Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Amcanion y cymhwyster | Cyflwyno gwybodaeth a sgiliau ymarferol sector-benodol i'r dysgwyr sy'n eu paratoi ar gyfer astudiaeth bellach neu brentisiaethau, gan feithrin datblygiad personol ac ymgysylltu drwy ddysgu cymhwysol. |
| Cod Cymhwyster CBAC | |
| Rhif QiW | |
| Grwpiau oedran cymeradwy | 14-16, 16-19, 19+ |
| Addysgu am y tro cyntaf | Medi 2027 |
| Ardystio am y tro cyntaf | Haf 2029 |

| Fersiwn | Disgrifiad | Dyddiad |
|---|---|---|
| | | |
| Gall ein manylebau newid dros amser. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser. | | |

DRAFT

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TAAU sy'n nodi'r gofynion ar gyfer cymwysterau TAAU a gymeradwywyd i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2027 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i'r dysgwyr yng Nghymru.

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2026.

# Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy'n hygyrch, deniadol, ac wedi'u cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon uchel, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Cymwysterau Cymru sy'n llywio ac yn tywys ein gwaith.

Ni yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o'r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae'n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.

# Deniadol, ymarferol, ac wedi'u hadeiladu ar gyfer cynnydd

Mae ein cymwysterau Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) wedi'u cynllunio i ysbrydoli a chefnogi dysgwyr 14-16 oed, gan gynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy'n hygyrch, deniadol, ac wedi'i gwreiddio mewn dysgu yn y byd go iawn. Gyda phwyslais cryf ar weithgareddau a phrofiad ymarferol, mae'r cymwysterau hyn yn helpu dysgwyr i feithrin hyder, datblygu sgiliau hanfodol, a chyflawni llwyddiant ystyrlon.

Mae cymwysterau TAAU yn cynnwys unedau, gan ganiatáu i'r dysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac eraill ym Mlwyddyn 11. Gyda'r hyblygrwydd hwn, mae'n bosibl gwneud cynnydd cyson, mae llai o bwysau asesu, ac mae'r dysgwyr yn cael y cyfle i ddangos yr hyn maen nhw'n ei gyflawni drwy gydol y cwrs. Ar gyfer ein cymwysterau TAAU, mae asesiadau allanol wedi'u cynllunio er mwyn asesu gwybodaeth sylfaenol a gellir eu cwblhau tua dechrau'r cwrs, gan roi mwy o amser i'r dysgwyr ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau lefel uwch. Mae'r strwythur hwn yn ychwanegu trylwyredd a hygrededd i'r cymhwyster tra'n helpu i leihau llwyth gwaith athrawon.

Oherwydd eu natur gydadferol, mae ein cymwysterau TAAU yn cydnabod y cryfderau sydd gan ddysgwyr ar draws y gwahanol unedau. Gall cyflawniad uchel mewn un maes wrthbwyso perfformiad is mewn maes arall, gan hybu profiad asesu mwy cynhwysol a chefnogol.

Gyda chynnwys sy'n berthnasol, yn ysgogol ac wedi'i deilwra i anghenion dysgwyr, mae cymwysterau TAAU CBAC yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen i astudio ymhellach ar Lefelau 1 i 3. P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddan nhw'n ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Cynnwys


Crynodeb o'r asesu ........ 5
1. Cyflwyniad ........ 7
1.1. Pwrpas a nodau ........ 7
1.2. Cwricwlwm i Gymru ........ 8
1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant ........ 9
1.4. Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) ........ 10
1.5. Y defnydd o iaith ........ 10
1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg ........ 10
2. Unedau ........ 12
2.1. Fformat yr unedau ........ 12
2.2. Sut i ddarllen yr ymhelaethiad ........ 12
2.3. Cynnwys ........ 13
Uned 1 Cyflwyniad i'r Sector Gwasanaethau Cyhoeddus ........ 14
Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith ........ 25
Uned 2 Y Gwasanaethau Cyhoeddus ar Waith ........ 27
Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith ........ 39
Uned 3 Llesiant a Ffitrwydd ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus ........ 40
Uned 4 Dinasyddiaeth a Chymuned yn y Gwasanaethau Cyhoeddus ........ 48
Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith ........ 55
3. Asesu ........ 56
3.1 Amcanion asesu a phwysoliadau ........ 56
3.2 Trosolwg o'r Asesu ........ 57
3.3 Rheoli'r asesiad di-arholiad ........ 58
3.4 Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad ........ 60
3.5 Camymddwyn ........ 60
4 Gwybodaeth dechnegol ........ 61
4.1 Cofrestriadau unedau ........ 61
4.2 Cofrestru ar gyfer y cymhwyster ........ 61
4.3 Graddio ac adrodd yn ôl ........ 62
4.4 Ailsefyll asesiadau unedau ........ 62
4.5 Ailwneud y cymhwyster ........ 63
Atodiad A: Cyfleoedd i fewnblannu elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ........ 64


DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Crynodeb o'r asesu

| |
|---|
| Uned 1: Cyflwyniad i'r Sector Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Asesiad allanol (prawf sector): 1 awr<br>20% o'r cymhwyster<br>50 marc |
| Adran A: cwestiynau dewis lluosog, prawf gwrthrychol ac atebion byr, 25 marc<br>Adran B: cwestiynau dewis lluosog, prawf gwrthrychol ac atebion byr, yn seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol, 25 marc |
| Uned 2: Y Gwasanaethau Cyhoeddus ar Waith<br>Asesiad di-arholiad: 5 awr<br>20% o'r cymhwyster<br>62 marc |
| Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC.<br>Mae'r asesiad yn cynnwys briff penodol ar gyfer yr asesiad a phum tasg.<br>Bydd briff yr asesiad ar gael ar safle Porth CBAC yn ystod mis Medi o'r flwyddyn astudio gyntaf. Bydd briff yr asesiad yn cael ei newid bob blwyddyn. |
| Uned 3: Llesiant a Ffitrwydd ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus (Dewisol)<br>Asesiad di-arholiad: 11 awr (heb gynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r rhaglen ymarfer iechyd a ffitrwydd chwech wythnos)<br>60% o'r cymhwyster<br>98 marc |
| Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan Ganolfannau a'i gymedroli yn allanol gan CBAC.<br>Mae'r asesiad yn cynnwys briff penodol ar gyfer yr asesiad a thair tasg.<br>Bydd briff yr asesiad ar gael ar safle Porth CBAC a bydd yn aros yr un fath drwy gydol oes y fanyleb.<br>Rhaid cwblhau Tasg 1, Tasg 2, a Thasg 3(a), 3(b)(ii) a 3(c) o fewn 11 awr. Awgrymir y bydd Tasg 3(b)(i), cwblhau'r rhaglen ymarfer iechyd a ffitrwydd chwech wythnos, yn cymryd rhwng 6 a 12 awr. |

© WJEC CBAC Ltd 2026

| Uned 4: Dinasyddiaeth a Chymuned yn y Gwasanaethau Cyhoeddus (Dewisol)<br>Asesiad di-arholiad: 10 awr (heb gynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r project llesiant cymunedol bach annibynnol)<br>60% o'r cymhwyster<br>98 marc |
|---|
| Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan Ganolfannau a'i gymedroli yn allanol gan CBAC.<br>Mae'r asesiad yn cynnwys briff penodol ar gyfer yr asesiad a thair tasg.<br>Bydd briff yr asesiad ar gael ar safle Porth CBAC a bydd yn aros yr un fath drwy gydol oes y fanyleb.<br>Rhaid cwblhau Tasg 1, Tasg 2, Tasg 3(a), 3(b)(ii) a 3(c) o fewn 10 awr. Awgrymir y bydd Tasg 3(b)(i), cwblhau'r project llesiant bach annibynnol yn y gymuned neu'r ysgol, yn cymryd rhwng 6 a 12 awr. |

Cymhwyster unedol yw hwn.

Nid yw'n cynnwys haenau.

Mae'r cymhwyster yn cynnwys **tair uned**.

Mae Uned 1 ac Uned 2 yn **orfodol**; maen nhw'n sail i'r cymhwyster a **dylid** eu haddysgu gyntaf.

Gall Canolfannau/Dysgwyr wedyn ddewis **naill ai** Uned 3 **neu** Uned 4.

Bydd Unedau 1 a 2 ar gael o fis Ionawr 2028 ac yng nghyfres yr haf ac yng nghyfres mis Ionawr bob blwyddyn wedi hynny.

Bydd Unedau 3 a 4 ar gael o fis Ionawr 2029 ac yng nghyfres yr haf ac yng nghyfres mis Ionawr bob blwyddyn wedi hynny.

Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2029.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Pwrpas a nodau

Mae Tystysgrifau Galwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) CBAC wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr rhwng 14 a 16 oed, gan ddarparu profiadau dysgu perthnasol ac ystyrlon sy'n adlewyrchu eu cam datblygiad. Mae'r cymwysterau wedi'u gwreiddio'n gadarn yng nghyd-destun Cymru ac economi Cymru, gan sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu â chynnwys sy'n ddilys yn lleol ac yn arwyddocaol yn genedlaethol.

Maent yn cynnig cynnwys ac asesiad deniadol a hygyrch sy'n cefnogi datblygu sgiliau ymarferol, gwybodaeth a dealltwriaeth. Drwy gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r cymwysterau hyn yn cyfrannu at wireddu ei bedwar diben a'i egwyddorion cynnydd, gan helpu dysgwyr i ddod yn uchelgeisiol, yn alluog ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

Yn ogystal, mae cymwysterau TAAU yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a llwybrau i astudiaeth ôl-16, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol sy'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu camau nesaf, boed hynny mewn addysg, hyfforddiant, neu fyd gwaith.

Mae TAAU CBAC yn:

- darparu sylfaen eang ar gyfer symud ymlaen i astudiaeth ôl-16, gan gynnwys astudiaeth alwedigaethol ar Lefel 1 i 3 fel y bo'n briodol
- caniatáu i'r dysgwyr ddatblygu amrywiaeth o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau, gyda phwyslais ar sgiliau ymarferol
- darparu cyfleoedd i'r dysgwyr gael eu hasesu mewn ffyrdd perthnasol, gafaelgar ac ystyrlon, gan ddefnyddio technoleg lle bo hynny'n briodol
- darparu cyfleoedd, lle y bo'n briodol, i'r dysgwyr ddatblygu:
  - sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y nodir yn y Cwricwlwm i Gymru
  - y sgiliau cyfannol a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru
  - dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn y byd gwaith
- darparu cyfleoedd, lle y bo'n briodol, i'r dysgwyr ymwneud ag agweddau perthnasol ar themâu trawsgwricwlaidd:
  - cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
  - amrywiaeth
  - hawliau dynol
  - addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh)
- gydnaws â Lefelau 1 a 2 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC).

Mae'r nodau hyn yn cyd-fynd â'r nodau a nodir ym Meini Prawf Cymeradwyo TAAU Cymwysterau Cymru.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

Nod TAAU mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yw:

- hybu dealltwriaeth o'r sector gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y mathau o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus, eu pwrpasau a'u cyfrifoldebau a'r amrywiaeth eang o rolau swyddi sydd ar gael, yn ogystal â'r sgiliau allweddol a'r gwerthoedd sydd eu hangen i weithio'n effeithiol yn y rolau hyn
- ymgorffori dealltwriaeth o sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i ddigwyddiadau, a sut mae sefydliadau'n cydweithio i gadw cymunedau'n ddiogel
- datblygu sgiliau ymarferol sy'n berthnasol i wasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â llesiant a ffitrwydd a mynd i'r afael â materion yn y gymuned leol
- meithrin sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy megis cynllunio, trefnu a chyfathrebu o fewn cyd-destunau gwasanaethau cyhoeddus go iawn
- hybu ymwybyddiaeth o sefydliadau yn sector y gwasanaethau cyhoeddus a'u cyfraniad at economi Cymru
- paratoi dysgwyr ar gyfer symud ymlaen i astudiaethau pellach, prentisiaethau, neu gyflogaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus.

## 1.2. Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yw sail y cymhwyster TAAU hwn mewn Gwasanaethau Cyhoeddus. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i'r lluniad hwn y mae'r egwyddorion cynnydd, ynghyd â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad Y Dyniaethau.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd yn adran 2.3; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r cymhwyster TAAU Gwasanaethau Cyhoeddus yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy:

- gefnogi datganiadau o'r hyn sy'n bwysig Y Dyniaethau[1], gan roi cyfle i'r dysgwyr:
  - archwilio ac ymchwilio i ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, gan eu hannog i gwestiynu, meddwl yn feirniadol, ac adfyfyrio ar sut mae'r sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus hyn yn gweithredu'n lleol ac yn genedlaethol, a sut maen nhw'n ymateb i anghenion cymdeithas
  - cynnal adolygiad beirniadol o sut y caiff digwyddiadau gwasanaeth cyhoeddus eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli yn y gymuned, gan ddatblygu hunanymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o sut mae cyd-destun yn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau a chyfathrebu
  - datblygu eu llesiant a'u hymdeimlad o berthyn, drwy ymgysylltu dysgwyr mewn gweithgareddau sy'n eu cysylltu â'u cymuned leol, Cymru, a'r byd ehangach, gan hefyd amlygu cyfraniad gwasanaethau cyhoeddus at wydnwch a diogelwch cymunedol
  - archwilio dinasyddiaeth weithredol, gan baratoi dysgwyr i ddod yn unigolion gwybodus a chyfrifol sy'n deall pwysigrwydd gwasanaethau cyhoeddus, yn gallu cyfrannu at eu cymunedau, ac ymgysylltu â heriau cyfredol a heriau'r dyfodol sy'n effeithio ar Gymru a thu hwnt

[1] Dyniaethau: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig – Hwb

© WJEC CBAC Ltd 2026

DRAFT

  - meithrin ffordd o feddwl foesegol ac adfyfyriol, drwy gwestiynu a gwerthuso sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd, gan helpu dysgwyr i ddatblygu fel dinasyddion byd-eang sy'n ymwybodol ohonyn nhw eu hunain, yn wybodus, ac yn foesegol sy'n deall y gwerthoedd a'r ymddygiadau sy'n sail i waith gwasanaeth cyhoeddus.
- cefnogi egwyddorion cynnydd y Dyniaethau[2] drwy annog dysgwyr i:
  - ofyn cwestiynau ymholi cynyddol soffistigedig am rôl, effaith ac effeithiolrwydd gwasanaethau cyhoeddus mewn cymdeithas
  - cymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol, gan ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth sy'n hanfodol ar gyfer rolau gwasanaeth cyhoeddus
  - ymgysylltu â dealltwriaeth ehangach a dyfnach o wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys eu cyfrifoldebau, eu strwythurau, ac ymatebion i anghenion ac argyfyngau cymunedol
  - datblygu ymwybyddiaeth o fywydau pobl eraill, gan ystyried amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, safbwyntiau byd-eang, a dylanwadau hanesyddol ar y ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus
  - cymhwyso cysyniadau cynyddol gymhleth a dangos cywirdeb a rhuglder mewn sgiliau ymarferol, fel cyfathrebu, datrys problemau a gwneud penderfyniadau mewn senarios gwasanaeth cyhoeddus realistig
  - defnyddio sgiliau perthnasol gyda soffistigedigrwydd cynyddol a throsglwyddo gwybodaeth i gyd-destunau newydd ac anghyfarwydd, gan baratoi ar gyfer sefyllfaoedd deinamig a heriol y mae gweithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu.

## 1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofynion dysgu blaenorol penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed. Efallai y bydd y dysgwyr wedi cwblhau Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith (WRFQ) yn y pwnc cyn dechrau'r cwrs hwn, a all gefnogi eu parodrwydd a'u dilyniant ymhellach.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'n darparu sail addas ar gyfer dilyniant i astudiaethau pellach ar lefelau 1 i 3, megis Gwasanaethau Cyhoeddus, Gwasanaethau Amddiffynnol neu Wasanaethau mewn Lifrai ar Lefel 3, CBAC UG a Safon Uwch Troseddeg ac i brentisiaethau yn sector y Gwasanaethau Cyhoeddus megis Gweithrediadau Gwasanaeth Tân Brys ar Lefel 3. Yn ogystal, mae'r cymhwyster yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

[2] Dyniaethau: Egwyddorion cynnydd - Hwb

© WJEC CBAC Ltd 2026

DRAFT

## 1.4. Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC)

Lluniwyd TAAU Gwasanaethau Cyhoeddus i'w chyflwyno dros gyfnod o 120–140 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i'r dysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n strwythuro ac yn cyflwyno eu cyrsiau o fewn cyfanswm yr ODA ar gyfer y cymhwyster. Mae maint y cynnwys ym mhob uned a'i bwysoliad o fewn y cymhwyster yn rhoi syniad o'r ganran ddisgwyliedig o ODA y gallai fod ei hangen ar gyfer pob uned.

| | Pwysoliad | ODA |
|---|---|---|
| Uned 1 | 20% | 24 awr |
| Uned 2 | 20% | 24 awr |
| Uned 3 / 4 | 60% | 72 awr |
| **Cyfansymiau** | **100%** | **120 awr** |

Y cyfanswm amser cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr ODA ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol. Cyfanswm amser cymhwyso'r cymhwyster hwn yw 140–160 awr. Mae hyn yn cynnwys:

- rhwng 120 a 140 o oriau dysgu dan arweiniad a/neu asesiad dan oruchwyliaeth
- 20 awr o astudiaeth hunangyfeiriedig a all gynnwys aseiniadau a thasgau ychwanegol wedi'u gosod gan yr athro (gwaith cartref) a defnydd annibynnol o adnoddau dysgu ar-lein.

## 1.5. Y defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Bydd y derminoleg yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen i sicrhau ei bod yn adlewyrchu hunaniaethau unigol ac yn meithrin parch a chywirdeb. Bydd yr iaith a ddefnyddir mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Byddwn yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch i bob dysgwr, waeth beth fo'i rywedd, ethnigrwydd, crefydd, diwylliant, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae egwyddorion cynllunio cynhwysol wedi'u cymhwyso drwy’r cymhwyster, gan gynnwys defnyddio fformatau asesu amrywiol, iaith glir a diduedd, ac enghreifftiau amrywiol sy'n adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y sector gwasanaethau cyhoeddus. Mae pob ymdrech wedi'i wneud i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai greu rhwystrau i fynediad neu gyflawniad na ellir eu cyfiawnhau.

Mae trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gael i'r dysgwyr cymwys er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan lawn mewn asesiadau a dangos eu gwybodaeth a'u sgiliau.

© WJEC CBAC Ltd 2026

DRAFT

Nid yw'r addasiadau hyn yn newid gofynion bwriadedig yr asesiad ond maent yn cefnogi mynediad teg. Mae canllawiau ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w gweld yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol*: *Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*, sydd ar gael ar www.jcq.org.uk.

Mae'r cymhwyster hwn yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r CGC. O ganlyniad i ddylunio cynhwysol a darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr a fydd yn dod ar draws rhwystr llwyr rhag unrhyw ran o'r broses asesu.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# 2. Unedau

## 2.1. Fformat yr unedau

| | |
|---|---|
| ODA | Mae'n nodi'r nifer amcangyfrifedig o oriau y bydd dysgwr yn ei dreulio dan oruchwyliaeth neu arweiniad uniongyrchol i gwblhau'r uned. Mae hyn yn cynnwys addysgu yn yr ystafell ddosbarth, gweithgareddau ymarferol, ac astudio dan oruchwyliaeth. |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | Mae'n nodi'r cyfraniad y mae'r uned hon yn ei wneud i radd ar gyfartaledd y cymhwyster. |
| Trosolwg o'r uned | Mae'n darparu crynodeb cryno o bwrpas, cwmpas a pherthnasedd yr uned. Mae'n amlinellu'r themâu allweddol, y sgiliau a'r meysydd gwybodaeth yr ymdrinnir â nhw, a sut mae'r uned yn cefnogi dilyniant yn y maes galwedigaethol. |
| Testunau | Mae'n rhestru'r testunau y bydd y dysgwyr yn eu hastudio fel rhan o'r uned. |
| Crynodeb o'r asesu | Mae'n crynhoi'r dulliau asesu ar gyfer yr uned. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesu. | Manylion y deunyddiau, yr offer, a'r cyfleusterau sydd eu hangen i gynnal yr asesiad yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch wrth gyflwyno'r cymhwyster ar draws canolfannau. |
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Mae'n nodi cysylltiadau ag unedau neu gymwysterau eraill sy'n cael eu cynnig gan CBAC, gan gynnwys llwybrau dilyniant a/neu gyfleoedd ar gyfer cyflwyno integredig. |
| Cynnwys | Mae'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr er mwyn bodloni'r meini prawf asesu. |
| Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith | Mae'n tynnu sylw at brofiadau dysgu a allai gael eu cynhyrchu drwy gyflwyno'r uned. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.<br>Ni fydd profiadau'n cael eu hasesu'n uniongyrchol. |

## 2.2. Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad a ddarperir yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn i ddangos dyfnder disgwyliedig y dysgu.

Mae 'Dylai'r dysgwyr fod yn ymwybodol o' yn cael ei ddefnyddio pan fydd angen ar ddysgwyr ymwybyddiaeth gyffredinol yn unig o'r cynnwys dan sylw, heb ddealltwriaeth fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at ddogfennau Canllawiau Addysgu am ganllawiau manylach ar ddyfnder a chwmpas.

Mae 'Dylai'r dysgwyr wybod' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i'r dysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r cynnwys.

Mae 'Dylai'r dysgwyr ddeall' yn nodi y dylai'r dysgwyr ddangos mwy o ddyfnder o wybodaeth a dealltwriaeth, gan gynnwys y gallu i gymhwyso gwybodaeth at gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd neu i ddadansoddi a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.

© WJEC CBAC Ltd 2026

Mae 'Dylai'r dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fydd disgwyl i'r dysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd ymarferol neu ddangos cymhwyso sgiliau ymarferol a thechnegau.

## 2.3. Cynnwys

Darperir cynnwys ar gyfer pob testun, sy'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr.

Rhaid cyflwyno'r holl gynnwys oni nodir fel arall:

- Mae'r defnydd o'r ymadrodd 'gan gynnwys' yn golygu bod y cynnwys dan sylw yn orfodol ac y gallai gael ei asesu. Gall canolfannau hefyd ddewis ymgorffori cynnwys neu enghreifftiau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a restrir.
- Mae'r defnydd o'r geiriau 'er enghraifft', 'fel' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid defnyddio enghreifftiau eraill.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Uned 1 Cyflwyniad i'r Sector Gwasanaethau Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| ODA | 24 awr |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 20% |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i bwrpas a strwythur sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a ledled y DU. Mae'n archwilio pam mae'r sefydliadau hyn yn bodoli, eu rôl wrth gefnogi a diogelu cymunedau, a'u cyfraniad at iechyd, addysg, diogelwch a llesiant. Bydd y dysgwyr hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy ac yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).<br>Mae'r uned yn cyfeirio at yr amrywiaeth o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau statudol fel y GIG, yr heddlu, gwasanaethau tân ac achub, a llywodraeth leol, yn ogystal â sefydliadau anstatudol a gwirfoddol fel yr RNLI ac Ambiwlans Sant Ioan. Bydd y dysgwyr yn deall y gwahaniaethau rhwng y mathau hyn o wasanaethau, eu modelau ariannu, a sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion y gymuned.<br>Mae'r wybodaeth hon yn darparu sylfaen ar gyfer dilyniant yn y maes galwedigaethol drwy ddatblygu ymwybyddiaeth o rolau, cyfrifoldebau a rhyngddibyniaeth sefydliadol. Mae'n helpu dysgwyr i nodi llwybrau gyrfa, deall disgwyliadau'r sector, a meithrin sgiliau trosglwyddadwy sy'n hanfodol ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol ym maes gwasanaethau cyhoeddus. |
| Testunau | 1.1 Pwrpas a strwythur sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus<br>1.2 Rolau a chyfrifoldebau sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus<br>1.3 Safonau proffesiynol ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus<br>1.4 Gweithio yn y sector gwasanaethau cyhoeddus<br>1.5 Cyfleoedd ar gyfer astudiaethau, cyflogaeth a llwybrau gyrfa ôl-16 yn y sector gwasanaethau cyhoeddus |
| Crynodeb o'r asesu | Prawf sector ysgrifenedig 1 awr<br>50 marc<br>Adran A: cwestiynau dewis lluosog, prawf gwrthrychol ac atebion byr, 25 marc<br>Adran B: cwestiynau atebion byr, yn seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol, 25 marc |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesu | Nid oes anghenion penodol ar gyfer yr asesu. Dylai canolfannau sy'n cofrestru dysgwyr ar gyfer asesiad ar-sgrin gyfeirio at wefan CBAC am wybodaeth ar unrhyw ofynion system:<br>https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/e-asesu/ |
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Gallai'r unedau Sgiliau Bywyd a Gwaith canlynol ategu cyflwyno'r uned hon:<br>Sgiliau Bywyd: Cyfranogiad Cymunedol<br>Sgiliau Bywyd: Democratiaeth ar waith<br>Sgiliau Bywyd: Gwerthoedd ar gyfer Bywyd<br>Sgiliau Gwaith: Archwilio Llwybrau Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Swyddi ar gyfer y Dyfodol |

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | Sgiliau Gwaith: Hawliau a Chyfrifoldebau yn y Gweithle<br>Sgiliau Gwaith: Gweithio yng Nghymru. |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Cynnwys

| 1.1 Pwrpas a strwythur sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.1.1 Pwrpas sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus<br>1.1.2 Yr amrywiaeth o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a ledled y DU<br>1.1.3 Y gwahanol fathau o wasanaethau cyhoeddus yn y sector | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.1.1<br>Pwrpas sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus | Dylai'r dysgwyr ddeall bod sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn bodoli i gefnogi ac amddiffyn pobl a chymunedau, gan ddarparu gwasanaethau hanfodol â ffocws ar y gwasanaethau yng Nghymru, ynghyd â phwrpas y sefydliadau hyn gan gynnwys:<br><br>• iechyd, megis:<br>  ◦ diogelu a gwella iechyd a llesiant unigolion yng Nghymru<br>• addysg, megis:<br>  ◦ darparu addysg sy'n diwallu anghenion pob dysgwr ac yn eu paratoi ar gyfer heriau'r dyfodol gan addysgu'r sgiliau, y gwerthoedd a'r wybodaeth iddynt i greu Cymru gynaliadwy ar gyfer y dyfodol<br>• gwasanaethau brys, megis:<br>  ◦ sicrhau bod cymunedau yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn<br>  ◦ ymateb i ddigwyddiadau, damweiniau ac argyfyngau<br>• gwasanaethau cyfiawnder troseddol, megis:<br>  ◦ cynnal y gyfraith<br>  ◦ amddiffyn y cyhoedd drwy leihau troseddu/ ail-droseddu<br>  ◦ sicrhau dedfrydu priodol i droseddwyr<br>• Lluoedd Arfog EF, megis:<br>  ◦ amddiffyn y DU<br>  ◦ darparu cymorth dyngarol/cefnogi ymdrechion rhyngwladol i gadw heddwch<br>  ◦ cefnogi'r awdurdodau sifil mewn argyfwng cenedlaethol<br>• llywodraeth leol, megis:<br>  ◦ darparu gwasanaethau cymunedol megis tai, gofal cymdeithasol, gwasanaethau amgylcheddol<br>• sefydliadau gwirfoddol/trydydd sector, megis:<br>  ◦ cefnogi gwaith sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus<br>  ◦ darparu gwasanaethau nad yw gwasanaethau statudol yn eu darparu. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
Dylai'r dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:
<ul>
<li>bod sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn anelu at ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy, gan ystyried effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd tymor hir</li>
<li>Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Nodau Llesiant Cenedlaethol, sy'n llywio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
<ul>
<li>Cymru Lewyrchus</li>
<li>Cymru Gydnerth</li>
<li>Cymru Iachach</li>
<li>Cymru Fwy Cyfartal</li>
<li>Cymru o Gymunedau Cydlynus</li>
<li>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu</li>
<li>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.</li>
</ul>
</li>
</ul>
</td>
</tr>
<tr>
<td>1.1.2<br>Yr amrywiaeth o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a ledled y DU</td>
<td>
Dylai'r dysgwyr wybod am yr amrywiaeth o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus a'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu, gan gynnwys:
<ul>
<li>iechyd:
<ul>
<li>GIG Cymru</li>
<li>Iechyd Cyhoeddus Cymru</li>
</ul>
</li>
<li>addysg:
<ul>
<li>ysgolion y wladwriaeth</li>
<li>colegau addysg bellach</li>
</ul>
</li>
<li>gwasanaethau brys:
<ul>
<li>gwasanaeth yr heddlu</li>
<li>gwasanaeth tân ac achub</li>
<li>Gwasanaeth Ambiwlans Cymru</li>
<li>Gwylwyr y Glannau EF</li>
</ul>
</li>
<li>gwasanaethau cyfiawnder troseddol:
<ul>
<li>Gwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlys EF</li>
<li>Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF</li>
</ul>
</li>
<li>Lluoedd Arfog EF:
<ul>
<li>Y Fyddin</li>
<li>Y Llynges Frenhinol</li>
<li>Y Llu Awyr Brenhinol (RAF)</li>
</ul>
</li>
<li>llywodraeth leol:
<ul>
<li>cynghorau</li>
<li>gwasanaethau cymdeithasol</li>
<li>tai</li>
</ul>
</li>
<li>sefydliadau gwirfoddol/trydydd sector:
<ul>
<li>Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI)</li>
<li>Ambiwlans Sant Ioan</li>
<li>Timau Achub Mynydd Cymru a Lloegr</li>
<li>Ambiwlans Awyr Cymru</li>
<li>URDD Gobaith Cymru.</li>
</ul>
</li>
</ul>
</td>
</tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| 1.1.3<br>Y gwahanol fathau o wasanaethau cyhoeddus yn y sector | Dylai'r dysgwyr wybod pa wasanaethau cyhoeddus sy'n sefydliadau statudol ac anstatudol, gan gynnwys:<br><br>• sefydliadau statudol:<br>  • gwasanaeth yr heddlu<br>  • gwasanaeth tân ac achub<br>  • Gwasanaeth Ambiwlans Cymru<br>  • Gwylwyr y Glannau EF<br>  • Lluoedd Arfog EF<br>  • llywodraeth leol<br>  • gwasanaethau iechyd, megis GIG Cymru a gwasanaethau addysg.<br><br>• sefydliadau anstatudol<br>  • sefydliadau gwirfoddol, gan gynnwys:<br>    • RNLI<br>    • Ambiwlans Sant Ioan<br>    • Timau Achub Mynydd Cymru a Lloegr<br>    • Ambiwlans Awyr Cymru<br>    • URDD Gobaith Cymru<br>  • sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys cwmnïau cyfleustodau (nwy, trydan, dŵr).<br><br>Dylai'r dysgwyr ddeall y gwahaniaethau rhwng sefydliadau statudol ac anstatudol, gan gynnwys:<br><br>• sefydliadau statudol<br>  • yn ofynnol gan y gyfraith<br>  • wedi'u hariannu'n bennaf gan y llywodraeth<br>  • yn darparu gwasanaethau y mae'r cyhoedd yn dibynnu arnynt<br>• sefydliadau anstatudol<br>  • ddim yn ofynnol gan y gyfraith<br>  • yn annibynnol ar y llywodraeth<br>  • wedi'u hariannu drwy roddion, grantiau, cymynroddion, ffioedd aelodaeth, gwerthu nwyddau a gwerthu mewn siopau, gweithgareddau codi arian a thaliadau a godir ar gwsmeriaid (cwmnïau cyfleustodau preifat).<br>  • yn cefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus statudol<br>  • yn darparu gwasanaethau i gefnogi cymunedau. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| 1.2 Rolau a chyfrifoldebau sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.2.1 Rolau a chyfrifoldebau'r gwasanaethau cyhoeddus<br>1.2.2 Sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i gefnogi cymunedau<br>1.2.3 Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chydweithio aml-sector yng Nghymru | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.2.1<br>Rolau a chyfrifoldebau'r gwasanaethau cyhoeddus | Dylai'r dysgwyr ddeall bod gan bob gwasanaeth cyhoeddus rolau a chyfrifoldebau penodol sy'n cyfrannu at ddiogelwch, llesiant a datblygiad unigolion a chymunedau yng Nghymru a ledled y DU, megis:<br><br>• Gwasanaeth yr heddlu – cynnal cyfraith a threfn, atal ac ymchwilio i droseddau, amddiffyn pobl ac eiddo, a chefnogi mentrau diogelwch cymunedol<br>• Gwasanaeth tân ac achub – ymateb i danau, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ac argyfyngau eraill, achub pobl ac anifeiliaid, a hybu dulliau atal tân ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch<br>• Gwasanaethau cyfiawnder troseddol – rheoli llysoedd a charcharau, amddiffyn y cyhoedd, cefnogi prosesau cyfiawnder teg, ac adsefydlu troseddwyr<br>• Gwasanaethau ambiwlans ac iechyd – darparu gofal meddygol brys, cludo cleifion yn ddiogel, a helpu'r GIG i hybu llesiant corfforol a meddyliol<br>• Lluoedd Arfog EF – amddiffyn y DU a'i buddiannau, darparu cymorth dyngarol a chymorth mewn ymateb i drychinebau, a chynorthwyo awdurdodau sifil mewn argyfyngau<br>• Gwasanaethau llywodraeth leol – darparu gwasanaethau cymunedol fel tai, casglu gwastraff, diogelu'r amgylchedd a gofal cymdeithasol<br>• Sefydliadau gwirfoddol/trydydd sector – gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi unigolion a chymunedau drwy gyngor, eiriolaeth a chymorth ymarferol. |
| 1.2.2<br>Sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i gefnogi cymunedau | Dylai'r dysgwyr ddeall bod gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio yng Nghymru a ledled y DU, drwy ddull cydgysylltiedig i gefnogi cymunedau, gan rannu gwybodaeth ac adnoddau er mwyn:<br><br>• darparu ymateb cydgysylltiedig yn ystod digwyddiadau nad ydynt yn argyfyngau, argyfyngau a digwyddiadau mawr<br>• amddiffyn pobl agored i niwed a gwella diogelwch cymunedol<br>• darparu cymorth ar draws gwasanaethau megis iechyd, addysg a gofal cymdeithasol<br>• gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i wella gwasanaethau a chyfleoedd lleol |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • rhoi arferion cynaliadwy ar waith, lleihau'r effaith amgylcheddol, a chefnogi llesiant tymor hir cymunedau<br>• cefnogi blaenoriaethau llesiant cenedlaethol a lleol. |
| 1.2.3<br>Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chydweithio aml-sector yng Nghymru | Dylai'r dysgwyr ddeall rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys:<br><br>• eu pwrpas a'u hamcanion:<br>  ◦ gwella trefniadau cydweithio ledled Cymru<br>  ◦ nodi blaenoriaethau llesiant lleol<br>  ◦ cynllunio strategaethau i wella canlyniadau i gymunedau a'u rhoi ar waith<br>  ◦ monitro cynnydd a sicrhau atebolrwydd wrth gyflawni nodau llesiant lleol a chenedlaethol<br>  ◦ cyhoeddi cynlluniau llesiant lleol ac adroddiadau blynyddol.<br>• sut mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio'r saith nod llesiant cenedlaethol i benderfynu ar eu hamcanion a'u targedau ar gyfer gwella ardaloedd lleol yng Nghymru<br>  ◦ Cymru Lewyrchus<br>  ◦ Cymru Gydnerth<br>  ◦ Cymru Iachach<br>  ◦ Cymru Fwy Cyfartal<br>  ◦ Cymru o Gymunedau Cydlynus<br>  ◦ Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br>  ◦ Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang<br>• sut mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio'r pum ffordd o weithio (yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)) i gyflawni eu hamcanion<br>  ◦ Tymor hir<br>  ◦ Atal<br>  ◦ Integreiddio<br>  ◦ Cydweithio<br>  ◦ Cyfranogiad<br>• sut mae amcanion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyd-fynd â threfniadau cydweithio aml-sector i ddiwallu anghenion cymunedau yng Nghymru, gan gynnwys:<br>  ◦ aelodau statudol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus:<br>  ◦ yr awdurdod lleol<br>  ◦ yr awdurdod iechyd<br>  ◦ yr awdurdod tân ac achub<br>  ◦ Cyfoeth Naturiol Cymru<br>  ◦ partneriaid yr estynnwyd gwahoddiad iddynt, megis:<br>  ◦ yr Heddlu<br>  ◦ Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>  ◦ Llywodraeth Cymru<br>  ◦ y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol<br>  ◦ Sefydliadau gwirfoddol |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| |     • Prifysgolion/colegau<br>• sut mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, fel partneriaethau cydweithredol, yn cydweithio, er enghraifft:<br>• yn dod â chyrff statudol, awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol/trydydd sector a grwpiau cymunedol ynghyd<br>• yn rhannu adnoddau, arbenigedd a gwasanaethau yn effeithiol i ymdrin â blaenoriaethau lleol<br>• mae trefniadau gweithio aml-sector yn creu atebion sy'n ystyried iechyd, swyddi, yr amgylchedd a diwylliant cymunedol<br>• mae amcanion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a threfniadau cydweithio yn helpu cymunedau i ddod yn fwy gwydn, yn iachach, ac yn fwy cyfartal, yn unol â'r saith nod llesiant cenedlaethol. |

| 1.3 Safonau proffesiynol ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.3.1 Codau ymddygiad proffesiynol a ddefnyddir gan sefydliadau<br>1.3.2 Sut mae sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn cynnal ymddiriedaeth | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 1.3.1<br>Codau ymddygiad proffesiynol a ddefnyddir gan sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus | Dylai'r dysgwyr wybod bod sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn defnyddio codau ymddygiad proffesiynol ffurfiol, megis:<br><br>• Cod Ymddygiad y GIG<br>• Cod Moeseg yr Heddlu<br>• Cod y Gweithlu Addysg (Cymru)<br>• Cod Ymddygiad Gwasanaeth Carchardai EF i swyddogion carchar<br>• Cod y Gwasanaeth Sifil<br>• Cod Moeseg Craidd y Gwasanaeth Tân ac Achub.<br><br>Dylai'r dysgwyr ddeall sut mae sefydliadau yn defnyddio codau ymddygiad proffesiynol i lywio ymddygiad proffesiynol, er enghraifft:<br><br>• hybu safonau ymarfer uchel<br>• hybu safonau ymddygiad uchel<br>• sicrhau atebolrwydd yn eu gwaith o ddydd i ddydd. |
| 1.3.2<br>Sut mae sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn cynnal ymddiriedaeth | Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:<br><br>• sut mae sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd, megis:<br>    • bod yn dryloyw ynglŷn â'u gweithredoedd a'u penderfyniadau<br>    • gweithredu mewn ffordd deg, gyson a chyfreithlon |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<ul>
<li>
<ul>
<li>sicrhau bod gwasanaethau yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn hygyrch</li>
<li>gwrando ar gwynion ac adborth ac ymateb iddynt</li>
<li>gweithio mewn partneriaeth â chymunedau a sefydliadau eraill i ddiwallu anghenion lleol</li>
</ul>
</li>
<li>sut y gall ymddygiad sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus a gweithwyr gwasanaeth cyhoeddus effeithio ar yr ymddiriedaeth hon, megis:
<ul>
<li>mae gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu fel modelau rôl yn eu cymunedau, gan gynrychioli gwerthoedd y sefydliadau y maent yn eu gwasanaethu</li>
<li>gall achosion o gamymddwyn neu ddiffyg uniondeb gael effaith andwyol ar enw da'r sefydliad a lleihau hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth.</li>
</ul>
</li>
</ul>
</td>
</tr>
<tr>
<th colspan="2">1.4 Gweithio yn y sector gwasanaethau cyhoeddus</th>
</tr>
<tr>
<td colspan="2">Yn y testun hwn bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.4.1 Gwerthoedd a disgwyliadau allweddol ar gyfer gweithio yn y sector gwasanaethau cyhoeddus<br>1.4.2 Sgiliau allweddol ar gyfer gweithio yn y sector gwasanaethau cyhoeddus<br>1.4.3 Defnyddio ac addasu safonau, gwerthoedd a sgiliau allweddol mewn rolau yn y gwasanaethau cyhoeddus</td>
</tr>
<tr>
<th>Adran</th>
<th>Ymhelaethiad</th>
</tr>
<tr>
<td>1.4.1<br>Gwerthoedd a disgwyliadau allweddol ar gyfer gweithio yn y sector gwasanaethau cyhoeddus</td>
<td>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:
<ul>
<li>y gwerthoedd y dylai gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus eu dangos, gan gynnwys:
<ul>
<li>uniondeb</li>
<li>tegwch</li>
<li>parch</li>
<li>atebolrwydd</li>
<li>tosturi</li>
<li>gwasanaeth i'r cyhoedd</li>
</ul>
</li>
<li>y disgwyliadau y mae cymdeithas, cyflogwyr, a'r llywodraeth yn eu rhoi ar weithwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys yr angen i wneud y canlynol:
<ul>
<li>gweithredu â gonestrwydd, uniondeb a phroffesiynoldeb ym mhob maes gwaith</li>
<li>trin aelodau o'r cyhoedd yn deg, gan barchu deddfwriaeth a pholisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant</li>
<li>gweithio'n effeithiol a chydweithio i gefnogi unigolion a chymunedau</li>
<li>dangos atebolrwydd a thryloywder wrth ddefnyddio cyllid ac adnoddau cyhoeddus</li>
<li>adlewyrchu gwerthoedd a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) (ar gyfer gwasanaethau sy'n benodol i Gymru).</li>
</ul>
</li>
</ul>
</td>
</tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| 1.4.2 Sgiliau allweddol ar gyfer gweithio yn y sector gwasanaethau cyhoeddus | Dylai'r dysgwyr ddeall y sgiliau allweddol sydd eu hangen i weithio'n effeithiol mewn rolau gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys:<br><br>• cyfathrebu – cyfathrebu llafar, di-eiriau ac ysgrifenedig a ddefnyddir i rannu gwybodaeth mewn ffordd glir a pharchus<br>• llythrennedd digidol – cyfathrebu, rheoli gwybodaeth, a helpu i ddarparu gwasanaethau mewn rôl gwasanaeth cyhoeddus<br>• gwaith tîm a chydweithio – gweithio gydag eraill i gyflawni nodau cyffredin a chefnogi cydweithwyr<br>• datrys problemau a gwneud penderfyniadau – nodi materion, ystyried opsiynau a dewis camau gweithredu priodol<br>• arweinyddiaeth a blaengaredd – cymell eraill, gosod esiampl dda, a chymryd cyfrifoldeb pan fydd angen<br>• trefnu a rheoli amser – cynllunio tasgau a blaenoriaethu gwaith i fodloni terfynau amser. |
| 1.4.3 Defnyddio ac addasu gwerthoedd, disgwyliadau a sgiliau allweddol mewn rolau yn y gwasanaethau cyhoeddus | Dylai'r dysgwyr ddeall y ffyrdd y gellir defnyddio ac addasu gwerthoedd, disgwyliadau a sgiliau allweddol o fewn gwahanol rolau a chyd-destunau gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys:<br><br>• ffyrdd o ddefnyddio ac addasu safonau, gwerthoedd a sgiliau allweddol, megis:<br>    • addasu dulliau cyfathrebu i weddu i wahanol gynulleidfaoedd, sefyllfaoedd a lefelau cyfrifoldeb<br>    • dangos gwaith tîm ac arweinyddiaeth i gyflawni nodau cyffredin a chefnogi eraill<br>    • gwneud penderfyniadau cyfrifol a moesegol mewn ymateb i heriau neu broblemau<br>    • adfyfyrio ar berfformiad personol i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella<br>    • cymhwyso gwerthoedd parch, uniondeb, tegwch ac atebolrwydd i sefyllfaoedd yn y gweithle<br>• rolau gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys:<br>    • Swyddog yr Heddlu<br>    • Diffoddwr tân<br>    • Parafeddyg neu weithiwr y GIG<br>    • Swyddog Carchar<br>    • Personél y lluoedd arfog<br>    • Gweithiwr llywodraeth leol neu wasanaeth sifil. |

| 1.5 Cyfleoedd ar gyfer astudiaethau, cyflogaeth a llwybrau gyrfa ôl-16 yn y gwasanaethau cyhoeddus |
|---|
| Yn y testun hwn bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.5.1 Mathau o gyflogaeth a rolau yn y gwasanaethau cyhoeddus<br>1.5.2 Gofynion mynediad, sgiliau hanfodol a chymwysterau ar gyfer rolau yn y gwasanaethau cyhoeddus<br>1.5.3 Llwybrau gyrfa yn y gwasanaethau cyhoeddus |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 1.5.1 Mathau o gyflogaeth a rolau yn y gwasanaethau cyhoeddus | Dylai'r dysgwyr wybod am y mathau o gyfleoedd cyflogaeth a'r rolau sydd ar gael yn y gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys:<br><br>• rolau mewn lifrai, gan gynnwys:<br>    • swyddogion yr heddlu<br>    • diffoddwyr tân<br>    • staff ambiwlans<br>    • personél lluoedd arfog EF<br>    • swyddogion ffiniau.<br>• rolau nad ydynt mewn lifrai, gan gynnwys:<br>    • athrawon<br>    • nyrsys<br>    • gweithwyr cymdeithasol<br>    • gweision sifil<br>    • gweithwyr cynghorau lleol.<br>• rolau cymorth, gan gynnwys:<br>    • gweinyddwyr<br>    • swyddogion derbyn galwadau<br>    • staff TG<br>    • technegwyr. |
| 1.5.2 Gofynion mynediad, sgiliau hanfodol a chymwysterau ar gyfer rolau yn y gwasanaethau cyhoeddus | Dylai'r dysgwyr wybod pa ofynion mynediad a sgiliau hanfodol sydd eu hangen i ymgymryd â rolau yn y gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys:<br><br>• gofynion mynediad, megis:<br>    • terfynau oedran<br>    • cymwysterau – yn benodol i bob swydd<br>    • lefelau ffitrwydd.<br>• sgiliau hanfodol, megis:<br>    • llythrennedd<br>    • rhifedd<br>    • llythrennedd digidol<br>    • cyfathrebu<br>    • gwaith tîm.<br><br>Dylai'r dysgwyr wybod bod sgiliau hanfodol yn cael eu datblygu wrth weithio mewn ffordd weithredol mewn gyrfaoedd yn y gwasanaethau cyhoeddus a bod modd eu trosglwyddo rhwng rolau.<br><br>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:<br><br>• bod gwahanol rolau gwasanaeth cyhoeddus yn gofyn am wahanol gyfuniadau o sgiliau a chymwysterau, megis:<br>    • diffoddwyr tân – ffitrwydd corfforol, gwaith tîm, a hyfforddiant tân ac achub penodol<br>    • parafeddygon – cymwysterau meddygol, ffitrwydd corfforol a gallu gwneud penderfyniadau dan bwysau |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • swyddogion gwasanaeth sifil neu lywodraeth leol – sgiliau dadansoddi, cyfathrebu a threfnu yn ogystal â hyfforddiant arbenigol ar gyfer rolau medrus (e.e. cyfrifwyr). |
| 1.5.3 Llwybrau gyrfa yn y gwasanaethau cyhoeddus | Dylai'r dysgwyr ddeall sut y gall pobl ddechrau gyrfa yn y gwasanaethau cyhoeddus a datblygu'r yrfa honno, gan gynnwys:<br><br>• sut i ddechrau arni, megis:<br>  • addysg<br>  • gwirfoddoli<br>  • cynlluniau cadetiaid<br>  • prentisiaethau<br>  • gwneud cais am swyddi lefel mynediad<br>  • profiad gwaith<br>• camu ymlaen mewn gyrfa drwy brofiad a hyfforddiant<br>• datblygu sgiliau trosglwyddadwy sy'n eich galluogi i symud rhwng rolau<br>• dysgu am ddisgwyliadau, hawliau a chyfrifoldebau yn y gweithle.<br><br>Dylai'r dysgwyr wybod am enghreifftiau o deithiau gyrfa, megis:<br><br>• dechrau yn yr heddlu fel Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) a symud ymlaen i ddod yn Swyddog Heddlu<br>• dod yn Dechnegydd Ambiwlans a symud ymlaen i ddod yn Barafeddyg<br>• ymuno â'r Gwasanaeth Tân ac Achub fel Diffoddwr Tân ar Brentisiaeth a symud ymlaen i ddod yn aelod o Griw, Gwarchodlu neu Reolwr Gorsaf<br>• dechrau fel gweinyddwr ym maes llywodraeth leol a symud i mewn i swydd fel rheolwr neu swyddog arbenigol. |

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- Ymweliadau â sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus, fel gorsafoedd tân, gorsafoedd heddlu, gwasanaethau ambiwlans neu sefydliadau milwrol – gall y dysgwyr arsylwi ar amgylcheddau gwaith, rolau a strwythurau sefydliadol o fewn y sector gwasanaethau cyhoeddus yr ymwelwyd ag ef.
- Siaradwyr gwadd o amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau brys, gwasanaethau mewn lifrai a rolau cymorth – gall y dysgwyr glywed am brofiadau uniongyrchol gan unigolion mewn gyrfaoedd gwasanaeth cyhoeddus, llwybrau mynediad, gofynion hyfforddi a chyfrifoldebau o ddydd i ddydd.

© WJEC CBAC Ltd 2026

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol a gweithdai dan arweiniad personél gwasanaeth cyhoeddus, fel cymorth cyntaf sylfaenol, heriau gwaith tîm, ymarferion arweinyddiaeth neu dasgau sy'n gysylltiedig â ffitrwydd – byddai hyn yn helpu'r dysgwyr i brofi gwahanol ofynion rolau gwasanaeth cyhoeddus.
- Gweithgareddau ymchwil sy'n gysylltiedig â chyflogwyr gwasanaeth cyhoeddus go iawn - gallai'r dysgwyr archwilio rolau swyddi, llwybrau gyrfa, gwerthoedd, ymddygiadau a disgwyliadau o fewn gwahanol wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cyfleoedd i gamu ymlaen a sgiliau trosglwyddadwy.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Uned 2 Y Gwasanaethau Cyhoeddus ar Waith

| | |
|---|---|
| ODA | 24 awr |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 20% |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r uned hon yn meithrin dealltwriaeth y dysgwyr o sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau ac argyfyngau, o sefyllfaoedd bach nad ydynt yn argyfwng i argyfyngau mawr a digwyddiadau ar raddfa fawr wedi'u cynllunio. Mae'n archwilio'r mathau o ddigwyddiadau y mae angen i wasanaethau cyhoeddus roi ymyriadau ar waith ar eu cyfer a'r egwyddorion sy'n llywio ymateb effeithiol, gan gynnwys blaenoriaethu, asesu risg, a chydymffurfio â deddfwriaeth fel Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.<br>Bydd y dysgwyr yn archwilio sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn paratoi ar gyfer digwyddiadau ac yn eu rheoli drwy gynllunio, hyfforddi, dyrannu adnoddau a chydweithio. Mae'r uned yn ymdrin â rolau a chyfrifoldebau gwasanaethau brys, gwasanaethau nad ydynt yn rhai brys, a sefydliadau gwirfoddol, gan amlygu sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i amddiffyn bywyd, eiddo a chymunedau. Mae hefyd yn ystyried pwysigrwydd diogelu hawliau dynol a chydraddoldeb wrth ymateb i ddigwyddiadau.<br>Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol ar gyfer dilyniant yn y maes galwedigaethol, gan ei bod yn rhoi manylion am weithdrefnau gweithredol, gweithio amlasiantaethol, a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer rheoli digwyddiadau'n effeithiol. Bydd y dysgwyr yn meithrin sylfaen ar gyfer gyrfaoedd mewn gwasanaethau cyhoeddus drwy ddeall modelau gwneud penderfyniadau, strategaethau cyfathrebu, ac effaith ymateb i ddigwyddiadau ar ymddiriedaeth y cyhoedd a gwydnwch cymunedol. |
| Testunau | 2.1 Ymateb i ddigwyddiadau yn y gwasanaethau cyhoeddus<br>2.2 Cydweithio a chyfathrebu wrth ymateb i ddigwyddiadau<br>2.3 Effaith ymateb i ddigwyddiadau ar wasanaethau cyhoeddus, cymunedau a'r economi |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad di-arholiad 5 awr<br>62 marc<br>Mae'r asesiad yn cynnwys briff penodol ar gyfer yr asesiad a phum tasg. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesu | Nid oes anghenion penodol ar gyfer yr asesu.<br><br>Rhaid sicrhau bod TG a meddalwedd briodol ar gael i'r dysgwyr. **Ni** chaniateir defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI)**.** |
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Gallai'r unedau Sgiliau Bywyd a Gwaith canlynol ategu cyflwyno'r uned hon:<br>Sgiliau Bywyd: Cyfranogiad Cymunedol<br>Sgiliau Bywyd: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant<br>Sgiliau Bywyd: Dewisiadau Moesegol<br>Sgiliau Bywyd: Cyfraith bob dydd<br>Sgiliau Bywyd: Gwaith tîm |

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Cynnwys

## 2.1 Ymateb i ddigwyddiadau yn y gwasanaethau cyhoeddus

Yn y testun hwn bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:
2.1.1 Mathau o ymateb i ddigwyddiadau yn y gwasanaethau cyhoeddus
2.1.2 Sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn paratoi ar gyfer y digwyddiadau hyn ac yn ymateb iddynt
2.1.3 Rolau a chyfrifoldebau'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag ymateb i ddigwyddiadau a'u rheoli

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 2.1.1<br>Mathau o ymateb i ddigwyddiadau yn y gwasanaethau cyhoeddus | Dylai'r dysgwyr ddeall y gwahanol fathau o ddigwyddiadau (digwyddiadau nad ydynt yn ddigwyddiadau brys, digwyddiadau brys a digwyddiadau ar raddfa fawr wedi'u cynllunio ymlaen llaw) y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb iddynt, gan gynnwys:<br><br>• Digwyddiadau nad ydynt yn ddigwyddiadau brys – digwyddiadau nad ydynt yn peri perygl uniongyrchol i eiddo neu fywyd ac nad ydynt yn gofyn am ymateb uniongyrchol neu frys gan y gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys:<br>  • Gwasanaethau brys, er enghraifft:<br>    • Gwasanaeth yr Heddlu: Gwrthdrawiadau traffig ffyrdd bach, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyfathrebiadau maleisus a lladrata o siopau.<br>    • Gwasanaeth Tân ac Achub: achub anifeiliaid.<br>    • Gwasanaeth Ambiwlans Cymru: Helpu gydag achosion o afiechydon parhaus, mân anafiadau a rheoli poen.<br>  • Gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau brys, er enghraifft:<br>    • Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF: Gwiriadau a chwiliadau diogelwch ac ymddygiad nad yw'n dreisgar neu ymddygiad anhrefnus bygythiol.<br>    • Llywodraeth Leol: Cydgysylltu ymatebion a gwasanaethau, ymdrin â materion iechyd yr amgylchedd megis llygredd a helpu gyda pharhad busnes.<br>  • Gwasanaethau gwirfoddol, er enghraifft:<br>    • RNLI: Methiannau mecanyddol ar gychod, gwasanaethau achub bywyd, llongau sy'n rhedeg o gwmpas a gwasanaethau halio.<br>    • Ambiwlans Sant Ioan: Gwasanaethau cludo cleifion, cymorth gyda chwympiadau a chymorth mewn digwyddiadau lle ceir mân anafiadau fel briwiau bach ac ysigiadau.<br>    • Timau Achub Mynydd Cymru a Lloegr: Cymorth gyda mân anafiadau ac achub anifeiliaid. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | - Y Groes Goch Brydeinig: Lloches, cymorth cyntaf a gofal meddygol brys.<br>• Digwyddiadau brys – digwyddiadau sy'n peri bygythiad uniongyrchol i fywyd, iechyd, eiddo, neu'r amgylchedd, ac sy'n gofyn am gamau gweithredu ar unwaith gan y gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys:<br>  • Gwasanaethau brys, er enghraifft:<br>    • Gwasanaethau'r Heddlu: Gweithredoedd terfysgol, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd mawr, gweithredoedd anhrefn cyhoeddus fel terfysgoedd, anhrefn treisgar a chynnal trefn.<br>    • Gwasanaeth Tân ac Achub: Tanau mawr, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd, ymgyrchoedd achub o adeiladau sydd wedi dymchwel a gollyngiadau gwastraff peryglus/cemegol.<br>    • Gwasanaeth Ambiwlans Cymru: Gwrthdrawiadau traffig ffyrdd Cwympiadau sydyn, tagu, gwaedu difrifol a thriniaethau meddygol eraill sy'n bygwth bywyd.<br>  • Gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau brys, er enghraifft:<br>    • Lluoedd Arfog EF: Trychinebau naturiol, gweithredoedd terfysgol, bygythiadau i ddiogelwch a gwaredu cyflenwadau ffrwydrol (gwaredu bomiau).<br>    • Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF: Sefyllfaoedd gwystlon ac atafaelu, terfysgoedd, anhrefn ac ymgyrchoedd dianc.<br>    • Llywodraeth leol: Cyfathrebu ag aelodau o'r gymuned/darparu'r wybodaeth ddiweddaraf, darparu llochesi/llety dros dro a rheoli achosion o gau ffyrdd.<br>  • Gwasanaethau gwirfoddol, er enghraifft:<br>    • RNLI: Ymgyrchoedd chwilio ac achub, llongau mewn trafferth, unigolion mewn trafferth ac argyfyngau meddygol.<br>    • Y Groes Goch Brydeinig: Cymorth symudedd a gwasanaethau i ffoaduriaid.<br>    • Byddin yr Iachawdwriaeth: Rhoi cymorth ymarferol i'r gwasanaethau brys h.y. darparu bwyd a diodydd, darparu bwyd, diodydd a chymorth emosiynol i gymunedau.<br><br>• Digwyddiadau ar raddfa fawr wedi'u cynllunio ymlaen llaw – bydd gwasanaethau cyhoeddus yn darparu cymorth mewn digwyddiadau mawr wedi'u cynllunio ymlaen llaw, gan gynnwys digwyddiadau chwaraeon, cyngherddau, gwyliau, digwyddiadau cymunedol, cynulliadau gwleidyddol, ymweliadau gwladol, digwyddiadau seremonïol a phrotestiadau, gan gynnwys:<br>  • Gwasanaethau brys, er enghraifft: |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<ul><li><ul>
<li>Gwasanaeth yr Heddlu: Protestiadau, cynulliadau gwleidyddol, cyngherddau ac ymweliadau gwladol.</li>
<li>Gwasanaeth Tân ac Achub: Cyngherddau a gwyliau ac arddangosfeydd tân gwyllt ar raddfa fawr.</li>
<li>Gwasanaeth Ambiwlans Cymru: Cyngherddau, gwyliau, marathonau a phrotestiadau.</li>
</ul></li>
<li>Gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau brys, er enghraifft:
<ul>
<li>Lluoedd Arfog EF: Dathliadau cyhoeddus ac arddangosiadau (h.y. gorymdeithiau Balchder), diwrnodau i'r teulu a digwyddiadau seremonïol.</li>
<li>Llywodraeth leol: Rhoi cyngor ac arweiniad cyffredinol a helpu ag achosion o gau ffyrdd.</li>
</ul></li>
<li>Gwasanaethau gwirfoddol, er enghraifft:
<ul>
<li>RNLI: Digwyddiadau seremonïol a digwyddiadau chwaraeon.</li>
<li>Ambiwlans Sant Ioan: Digwyddiadau chwaraeon, digwyddiadau seremonïol a gwyliau cerddoriaeth.</li>
</ul></li>
</ul>
</td>
</tr>
<tr>
<td>2.1.2<br>Sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn paratoi ar gyfer y digwyddiadau hyn ac yn ymateb iddynt</td>
<td>
Dylai'r dysgwyr ddeall sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn paratoi ar gyfer digwyddiadau ac yn ymateb iddynt, gan gynnwys:
<ul>
<li>paratoi ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau a'u rheoli, megis:
<ul>
<li>gwaith cynllunio manwl</li>
<li>hyfforddiant ac ymarferion</li>
<li>asesiadau risg a chynllunio wrth gefn</li>
<li>rhagfynegi a dyrannu cyllidebau</li>
<li>cydweithio ag asiantaethau gwasanaeth cyhoeddus eraill</li>
</ul></li>
<li>categoreiddio digwyddiadau, megis:
<ul>
<li>risg i fywyd ac iechyd</li>
<li>risg i eiddo</li>
<li>diogelwch y cyhoedd</li>
<li>blaenoriaethau penodol y gwasanaeth cyhoeddus</li>
<li>amseroedd ymateb</li>
<li>targedau ymateb</li>
<li>gofynion o ran adnoddau</li>
</ul></li>
<li>categoreiddio ymatebion i ddigwyddiadau, gan gynnwys:
<ul>
<li>argyfwng</li>
<li>amseroedd ymateb graddedig</li>
<li>dim angen ymateb</li>
</ul></li>
<li>yr adnoddau sydd eu hangen ar y gwahanol wasanaethau cyhoeddus wrth ymateb i ddigwyddiadau, megis:
<ul>
<li>personél ymateb, er enghraifft:</li>
</ul></li>
</ul>
</td>
</tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

    - Gwasanaeth yr Heddlu:  swyddogion ymateb, swyddogion traffig, trinwyr cŵn, swyddogion arfau tân awdurdodedig (AFO), swyddogion hyfforddedig Uned Cymorth yr Heddlu (PSU), swyddogion cymorth cymunedol, cwnstabliaid arbennig a swyddogion gwrthderfysgaeth.
    - RNLI: aelodau criwiau badau achub ac achubwyr bywyd
    - Gwasanaeth Tân ac Achub: diffoddwyr tân llawn amser, diffoddwyr tân ar alwad/wrth gefn, swyddogion ymchwilio i dân a staff rheoli tân
    - Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF: swyddogion carchar, graddau cymorth gweithredol, rheolwyr y ddalfa, y Grŵp Ymateb Tactegol Cenedlaethol (NTRG), timau Tornado ac ati.
    - Gwasanaeth Ambiwlans Cymru: swyddogion derbyn galwadau, parafeddygon, Technegwyr Meddygol Brys (EMT), Ymatebwyr Cyntaf gwirfoddol yn y Gymuned (CFR)
  - offer, er enghraifft:
    - cerbydau – ceir yr heddlu, ambiwlansys, hofrenyddion, injans tân a badau achub.
    - offer arbenigol – dyfeisiau taser, teclynnau codi, dronau, offer codi, offer anadlu, dyfeisiau meddygol, a phebyll
    - offer diogelwch – cyfarpar diogelu personol (PPE), helmedau, menig, festiau trywanu
    - Cyfathrebu – setiau radio, tabledi, systemau rhybuddio'r cyhoedd, ffonau symudol
  - cyllid, er enghraifft:
    - dyraniadau cyllidebol gan y llywodraeth ganolog a llywodraeth leol
    - cynlluniau gwariant a blaenoriaethau
    - rhoddion.

Dylai'r dysgwyr ddeall yr ymatebion sydd eu hangen ar unwaith a'r ymatebion tymor hirach sydd eu hangen mewn ymateb i ddigwyddiadau, megis:

- ymatebion ar unwaith:
  - ymgyrchoedd chwilio ac achub
  - diogelu'r ardal/safle
  - gwaredu/sefydlogi unrhyw beryglon uniongyrchol
  - rhoi cymorth meddygol
  - gwarchod tystiolaeth
  - rheoli mynediad
- ymatebion tymor hirach:
  - adfer/ymadfer ardal
  - ymchwiliadau parhaus
  - casglu tystiolaeth
  - ymgysylltu â’r gymuned
  - cymorth i ddioddefwyr a thystion
  - cynllunio strategol

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • gwersi a ddysgwyd.<br><br>Dylai'r dysgwyr ddeall sut mae deddfwriaeth yn sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu diogelu wrth gynllunio digwyddiadau a rheoli ymatebion, gan gynnwys:<br><br>• Deddf Hawliau Dynol 1998 – mae gan wasanaethau cyhoeddus ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â’r ddeddf a’i dilyn ym mhopeth y maent yn ei wneud, gan gynnwys:<br>  • Yr hawl i fywyd<br>  • Yr hawl i barch at fywyd teuluol a phreifat<br>  • Yr hawl i ryddid crefydd a chred<br>  • Yr hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu<br>• Deddf Cydraddoldeb 2010 – mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â thri nod allweddol wrth gyflawni eu dyletswyddau, gan gynnwys:<br>  • tri nod y ddyletswydd – dileu gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a phennu amcanion ansawdd<br>  • sut mae'r nodau yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn ystyried cydraddoldeb yn eu polisïau, gan hybu tegwch a chynhwysiant ar draws gwasanaethau. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

<table>
<tr>
<td>2.1.3<br>Rolau a chyfrifoldebau'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag ymateb i ddigwyddiadau a'u rheoli</td>
<td>Dylai'r dysgwyr ddeall rolau a chyfrifoldebau'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag ymateb i ddigwyddiadau a'u rheoli a deall y bydd y rolau a'r cyfrifoldebau yn wahanol ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys:
<ul>
<li>gwasanaethau brys, er enghraifft:
<ul>
<li>swyddogion derbyn galwadau'r gwasanaethau brys:
<ul>
<li>amseroedd ymateb i ateb yr alwad</li>
<li>casglu gwybodaeth bwysig</li>
<li>cofnodi gwybodaeth</li>
<li>brysbennu ac asesu</li>
<li>cyngor ac arweiniad brys</li>
<li>anfon yr ymatebydd brys priodol (os bydd angen)</li>
</ul></li>
<li>gwasanaeth yr heddlu:
<ul>
<li>cynnal asesiad risg dynamig</li>
<li>sicrhau y caiff eiddo ac unigolion eu diogelu</li>
<li>canfod ac atal troseddau</li>
<li>ymdrin â dioddefwyr a thystion (gan gynnwys cymryd datganiadau)</li>
<li>ymdrin ag aelodau o'r cyhoedd</li>
<li>cynnal a chasglu tystiolaeth</li>
</ul></li>
<li>Gwasanaeth Tân ac Achub:
<ul>
<li>ymateb ar unwaith i ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â thân</li>
<li>gwasanaethau achub (gan gynnwys achub yn ystod llifogydd a gwrthdrawiadau traffig ffyrdd)</li>
<li>amddiffyn bywyd</li>
<li>diogelu a gwarchod eiddo</li>
<li>ymchwilio i danau</li>
</ul></li>
<li>Gwasanaeth Ambiwlans Cymru:
<ul>
<li>ymateb ar unwaith i ddigwyddiadau meddygol</li>
<li>cynnal bywyd</li>
<li>rhoi triniaethau meddygol</li>
<li>brysbennu</li>
<li>gwasanaethau cludo cleifion</li>
</ul></li>
</ul></li>
<li>gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau brys, er enghraifft:
<ul>
<li>Lluoedd Arfog EF:
<ul>
<li>diogelu bywyd ac eiddo</li>
<li>ymgyrchoedd chwilio ac achub</li>
<li>cymorth logisteg a pheirianneg</li>
</ul></li>
<li>Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF
<ul>
<li>diogelu bywyd ac eiddo</li>
<li>cynnal trefn a rheolaeth</li>
<li>gwiriadau diogelwch a chwiliadau priodol</li>
<li>rhoi triniaeth feddygol</li>
</ul></li>
<li>llywodraeth leol, er enghraifft:
<ul>
<li>cyflawni dyletswyddau fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004:
<ul>
<li>asesu risg a chynllunio</li>
</ul></li>
</ul></li>
</ul></li>
</ul></td>
</tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | ◦ cyfathrebu â'r cyhoedd<br>◦ darparu staff cymorth<br>◦ cydweithio a rhannu gwybodaeth<br>• gwasanaethau gwirfoddol, er enghraifft:<br>◦ Achub Mynydd:<br>▪ dod o hyd i aelodau o'r cyhoedd sydd ar goll<br>▪ achub aelodau o'r cyhoedd sydd mewn trafferth<br>▪ rhoi triniaeth feddygol ar unwaith<br>◦ Y Groes Goch Brydeinig:<br>▪ darparu cymorth emosiynol<br>▪ helpu ag ymdrechion adfer h.y. eiddo<br>▪ rhoi cymorth dros y ffôn i'r rhai yr effeithir arnynt<br>▪ darparu cerbydau a chriwiau ambiwlans<br>◦ RNLI:<br>▪ chwilio ac achub<br>▪ triniaeth feddygol ar unwaith<br>▪ achub yn ystod llifogydd. |

## 2.2 Cydweithio a chyfathrebu wrth ymateb i ddigwyddiadau

Yn y testun hwn bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:
2.2.1 Sut mae asiantaethau lluosog yn cydweithio i ymateb i ddigwyddiadau
2.2.2 Manteision a heriau dull gweithredu amlasiantaethol
2.2.3 Sut y gellir defnyddio cyfathrebu digidol i ategu trefniadau cydweithio effeithiol a heriau defnyddio cyfathrebu digidol yn effeithiol

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 2.2.1<br>Sut mae asiantaethau lluosog yn cydweithio i ymateb i ddigwyddiadau | Dylai'r dysgwyr ddeall sut mae asiantaethau yn cydweithio mewn ymateb i ddigwyddiadau, gan gynnwys drwy wneud y canlynol:<br><br>• rhannu gwybodaeth ac adnoddau<br>• ffocws ar flaenoriaethau cyffredin<br>• cynllunio a hyfforddi ar y cyd (gan gynnwys ymarferion ar y cyd ar gyfer digwyddiadau brys)<br>• cytuno ymlaen llaw ar brotocolau.<br><br>Dylai'r dysgwyr wybod am y mentrau sy'n cefnogi gwaith amlasiantaethol, gan gynnwys:<br><br>• Egwyddorion o ran Gallu'r Gwasanaethau Brys i Weithredu ar y Cyd (JESIP)<br>• Model M/ETHANE<br>• Fforymau Gwydnwch Lleol (LRF)<br>• Tîm Ymateb mewn Ardaloedd Peryglus (HART)<br>• Gofal Cywir Person Cywir (RCRP). |

DRAFT

<table>
<tr>
<td>2.2.2<br>Manteision a heriau dull gweithredu amlasiantaethol</td>
<td>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:
<ul>
<li>manteision cydweithio amlasiantaethol wrth ymateb i ddigwyddiadau i'r gwasanaethau cyhoeddus ac unigolion a chymunedau, gan gynnwys:
<ul>
<li>gwasanaethau cyhoeddus, megis:
<ul>
<li>rheoli adnoddau mewn ffordd fwy effeithiol</li>
<li>nodi risgiau yn gynharach</li>
<li>rhannu arbenigedd</li>
<li>gwneud penderfyniadau ar y cyd</li>
<li>rhannu gwybodaeth</li>
<li>rhannu llwyth gwaith</li>
<li>mwy o atebolrwydd</li>
</ul></li>
<li>unigolion a chymunedau, megis:
<ul>
<li>amseroedd ymateb cyflymach</li>
<li>cydlyniad cymunedol</li>
<li>teimlo'n ddiogel ac wedi eich amddiffyn</li>
<li>gwell hyder yn y gwasanaethau cyhoeddus</li>
<li>canlyniadau gwell</li>
</ul></li>
</ul></li>
<li>heriau cydweithio amlasiantaethol wrth ymateb i ddigwyddiadau i'r gwasanaethau cyhoeddus ac unigolion a chymunedau, gan gynnwys:
<ul>
<li>gwasanaethau cyhoeddus, megis:
<ul>
<li>amharu ar gyfathrebu/cyfathrebu gwael</li>
<li>blaenoriaethau sy'n gwrthdaro</li>
<li>pwysau ar adnoddau</li>
<li>diffyg hunaniaeth gyffredin</li>
<li>amwysedd o ran rolau</li>
</ul></li>
<li>unigolion a chymunedau, megis:
<ul>
<li>diffyg rolau a chyfrifoldebau clir</li>
<li>diffyg atebolrwydd.</li>
</ul></li>
</ul></li>
</ul></td>
</tr>
<tr>
<td>2.2.3<br>Sut y gellir defnyddio cyfathrebu digidol i ategu trefniadau cydweithio effeithiol a heriau defnyddio cyfathrebu digidol yn effeithiol.</td>
<td>Dylai'r dysgwyr wybod am y mathau o adnoddau cyfathrebu digidol a ddefnyddir gan y gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys:
<ul>
<li>setiau radio</li>
<li>tabledi</li>
<li>gliniaduron</li>
<li>systemau rhybuddio'r cyhoedd</li>
<li>ffonau symudol</li>
<li>dronau.</li>
</ul>
Dylai'r dysgwyr ddeall manteision defnyddio cyfathrebu digidol a heriau defnyddio cyfathrebu digidol, wrth gefnogi cydweithio effeithiol, gan gynnwys:
<ul>
<li>manteision, er enghraifft
<ul>
<li>gwell prosesau rhannu gwybodaeth</li>
<li>cyfnewid gwybodaeth mewn amser real</li>
<li>amseroedd ymateb cyflymach</li>
<li>gwneud penderfyniadau cyflymach</li>
<li>gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwell gwybodaeth</li>
</ul></li>
<li>heriau, er enghraifft:</li>
</ul></td>
</tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2026

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • y gallu i ryngweithredu – mae'n bosibl na fydd gwahanol systemau yn rhyngweithio'n effeithiol â'i gilydd<br>• technoleg sydd wedi dyddio<br>• pryderon diogelwch, er enghraifft diogelu data<br>• methiannau annisgwyl<br>• colli pŵer, gan gynnwys achosion o golli pŵer wedi'u cynllunio<br>• gwall dynol. |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 2.3 Effaith ymateb i ddigwyddiadau ar wasanaethau cyhoeddus, cymunedau a'r economi

Yn y testun hwn bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:

2.3.1 Yr effaith gadarnhaol y mae ymateb i ddigwyddiadau yn ei chael ar wasanaethau cyhoeddus, cymunedau a'r economi
2.3.2 Yr effaith negyddol y mae ymateb i ddigwyddiadau yn ei chael ar wasanaethau cyhoeddus, cymunedau a'r economi
2.3.3 Effeithiolrwydd ymateb i ddigwyddiadau wrth ddiwallu anghenion y gymuned a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 2.3.1<br>Yr effaith gadarnhaol y mae ymateb i ddigwyddiadau yn ei chael ar wasanaethau cyhoeddus, cymunedau a'r economi | Dylai'r dysgwyr ddeall yr effaith gadarnhaol y gall ymatebion i ddigwyddiadau ei chael ar wasanaethau cyhoeddus, cymunedau a'r economi pan gaiff digwyddiad ei reoli'n llwyddiannus, gan gynnwys:<br><br>• gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft:<br>  • cymorth cymunedol<br>  • gwell cydlyniad â'r gymuned<br>  • gweithlu llawn cymhelliant<br>  • delwedd gadarnhaol ymhlith y cyhoedd<br>  • boddhad â'r swydd<br>  • lefelau absenoldeb is<br>• cymunedau, er enghraifft:<br>  • gwell gwydnwch<br>  • gwell ymddiriedaeth yn y gwasanaethau<br>  • gwell cydlyniad â'r gwasanaethau<br>  • teimlo'n ddiogel ac wedi eich amddiffyn<br>  • teimlo eich bod yn cael eich parchu<br>  • partneriaethau cryfach<br>• economi, er enghraifft:<br>  • llai o golledion ariannol i fusnesau lleol<br>  • gwydnwch economaidd cadarn<br>  • llai o ddiweithdra. |
| 2.3.2<br>Yr effaith negyddol y mae ymateb i ddigwyddiadau yn ei chael ar wasanaethau cyhoeddus, cymunedau a'r economi | Dylai'r dysgwyr ddeall yr effaith negyddol y gall ymatebion i ddigwyddiadau ei chael ar wasanaethau cyhoeddus, cymunedau a'r economi pan na chaiff digwyddiad ei reoli'n llwyddiannus, gan gynnwys:<br><br>• gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft:<br>  • lefelau absenoldeb uwch<br>  • cymhelliant gwael<br>  • costau uwch<br>  • morâl gwael<br>  • difrod i enw da<br>• cymunedau, er enghraifft:<br>  • delwedd gymdeithasol wael o'r gwasanaethau cyhoeddus<br>  • diffyg ymddiriedaeth<br>  • diffyg hyder yn y gwasanaethau cyhoeddus<br>  • risg i fywyd ac iechyd<br>• economi, er enghraifft: |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

<table>
<tr><td></td><td>
<ul><li><ul>
<li>cyfyngu ar dwf economaidd</li>
<li>cynyddu diweithdra</li>
<li>effaith ariannol negyddol ar fusnesau lleol</li>
<li>cost ariannol adfer ardal yn dilyn digwyddiad.</li>
</ul></li></ul>
Dylai'r dysgwyr fod yn ymwybodol o'r effaith gymdeithasol ehangach y gall rheoli digwyddiadau'n wael ei chael, gan gynnwys:
<ul>
<li>ofn</li>
<li>diffyg ymddiriedaeth</li>
<li>ansicrwydd</li>
<li>cymunedau yn chwalu</li>
<li>mwy o alw am wasanaethau.</li>
</ul>
</td></tr>
<tr><td>2.3.3<br>Effeithiolrwydd ymateb i ddigwyddiadau wrth ddiwallu anghenion y gymuned a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd</td><td>
Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:
<ul>
<li>pwysigrwydd cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd wrth ymateb i ddigwyddiadau, gan gynnwys:
<ul>
<li>gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu</li>
<li>annog cydlyniad cymdeithasol</li>
<li>annog gwaith partneriaeth rhwng cymunedau a'r gwasanaethau cyhoeddus</li>
<li>datblygu ymdeimlad o ddinasyddiaeth</li>
</ul></li>
<li>y canlyniadau pan gaiff ymddiriedaeth y cyhoedd ei thorri, gan gynnwys:
<ul>
<li>bydd cymunedau yn llai tebygol o gydymffurfio â chyfreithiau</li>
<li>mae'n creu heriau i'r gwasanaethau cyhoeddus wrth gyflawni eu dyletswyddau.</li>
</ul></li>
</ul>
Dylai'r dysgwyr allu gwneud argymhellion ynghylch sut y gellid gwella'r ymatebion i ddigwyddiadau penodol, er enghraifft:
<ul>
<li>hyfforddiant penodol</li>
<li>rheoli adnoddau</li>
<li>gwell cynllunio</li>
<li>gwell cyfathrebu</li>
<li>ymgysylltu â’r gymuned.</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- Arsylwi ar weithdrefnau ymateb i ddigwyddiadau drwy ymweliadau â sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus fel gwasanaethau tân ac achub, gwasanaethau'r heddlu neu wasanaethau ambiwlans - byddai hyn yn galluogi'r dysgwyr i ddeall sut mae digwyddiadau yn cael eu rheoli, eu rhoi dan reolaeth a'u hadolygu mewn lleoliadau gwaith yn y gwasanaethau cyhoeddus.
- Siaradwyr gwadd o'r gwasanaethau brys a gwasanaethau mewn lifrai a all esbonio eu rolau yn ystod digwyddiadau, gan gynnwys cyfathrebu, strwythurau gorchymyn, asesu risg, gwneud penderfyniadau a chydweithrediad rhyngasiantaethol – byddai'r dysgwyr yn clywed yn uniongyrchol am senarios bywyd go iawn y mae gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus wedi ymateb iddynt, a pham mae eu hymateb yn hanfodol.
- Cymryd rhan mewn senarios digwyddiadau wedi'u hefelychu, fel gwagio adeiladau ar frys, efelychiadau cymorth cyntaf, neu dasgau chwilio ac achub – bydd cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu ymwybyddiaeth o rolau, cyfrifoldebau ac arferion gweithio diogel yn ystod digwyddiadau.
- Ymgysylltu â gweithgareddau gwaith tîm a datrys problemau sy'n gysylltiedig ag ymateb i ddigwyddiadau – byddai hyn yn caniatáu i'r dysgwyr ymarfer sgiliau cyfathrebu, arweinyddiaeth, dilyn cyfarwyddiadau ac ymateb yn briodol o dan bwysau, gan adlewyrchu disgwyliadau o fewn amgylcheddau gwasanaeth cyhoeddus.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Uned 3 Llesiant a Ffitrwydd ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| ODA | 72 awr |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 60% |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a llesiant i unigolion sy'n gweithio mewn rolau gwasanaeth cyhoeddus. Bydd y dysgwyr yn archwilio gofynion corfforol a meddyliol y rolau hyn, effaith patrymau shifftiau a straen, a'r angen am wydnwch ac iechyd meddwl da. Mae'r uned hefyd yn ystyried polisïau a mentrau sy'n cefnogi llesiant yn y sector.<br>Bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth am faeth a'i rôl wrth baratoi ar gyfer gweithgaredd corfforol ac ymadfer ar ôl hynny, gan gynnwys swyddogaethau maetholion hanfodol ac argymhellion deietegol y llywodraeth. Mae'r uned yn archwilio ffactorau ffordd o fyw fel cwsg, ymarfer corff a defnyddio sylweddau, yn ogystal ag effeithiau negyddol ffordd o fyw eisteddog ar iechyd corfforol, meddyliol a chymdeithasol.<br>Mae'r ddealltwriaeth hon yn hanfodol er mwyn gwneud cynnydd yn y maes galwedigaethol, gan ei bod yn sail i'r gallu i fodloni gofynion ffitrwydd a chynnal llesiant mewn rolau gwasanaeth cyhoeddus heriol. Mae'n darparu sylfaen ar gyfer datblygu arferion iach, paratoi ar gyfer profion ffitrwydd mynediad, a chynnal perfformiad tymor hir mewn gyrfaoedd ym mhob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus. |
| Testunau | 3.1 Gofynion iechyd, ffitrwydd a llesiant ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus<br>3.2 Gofynion ffitrwydd a threfniadau asesu ar gyfer rolau yn y gwasanaethau cyhoeddus<br>3.3 Dylunio, gweithredu a gwerthuso rhaglen ymarfer iechyd a ffitrwydd |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad di-arholiad 11 awr (heb gynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r rhaglen ymarfer iechyd a ffitrwydd chwech wythnos)<br>98 marc<br>Mae'r asesiad yn cynnwys briff penodol ar gyfer yr asesiad a thair tasg. Fel rhan o'r asesiad bydd angen i'r dysgwyr gynllunio, cynnal a gwerthuso rhaglen ymarfer iechyd a ffitrwydd chwe wythnos o hyd.<br>Rhaid cwblhau Tasg 1, Tasg 2, a Thasg 3(a), 3(b)(ii) a 3(c) o fewn 11 awr.<br>Awgrymir y bydd Tasg 3(b)(i), cwblhau'r rhaglen ymarfer iechyd a ffitrwydd chwech wythnos, yn cymryd rhwng 6 a 12 awr.  Caiff yr agwedd hon ar yr asesiad ei chyflawni heb oruchwyliaeth. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesu | Bydd angen yr adnoddau canlynol, o leiaf, i gyflawni'r asesiad:<br><br>• mynediad at amrywiaeth o offer profi ffitrwydd<br>• cyfleusterau addas i gynnal profion ffitrwydd (fel neuadd chwaraeon)<br>• mynediad i'r rhyngrwyd, TG a meddalwedd briodol.<br><br>**Ni** chaniateir defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI)**.** |
| Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Gallai'r unedau Sgiliau Bywyd a Gwaith canlynol ategu cyflwyno'r uned hon:<br>Sgiliau Bywyd: Ymarfer Corff i Bawb<br>Sgiliau Bywyd: Ffordd Iach o Fyw<br>Sgiliau Bywyd: Iechyd a Llesiant Meddyliol<br>Sgiliau Gwaith: Archwilio Llwybrau Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Cynllunio Datblygiad Personol<br>Sgiliau Gwaith: Llesiant a Gwaith<br>Sgiliau Gwaith: Goresgyn Rhwystrau |

## Cynnwys

| 3.1 Gofynion iechyd, ffitrwydd a llesiant ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>3.1.1 Gofynion rolau gwasanaeth cyhoeddus amrywiol<br>3.1.2 Maeth a'i effaith ar y corff wrth baratoi ar gyfer gweithgarwch corfforol<br>3.1.3 Ymchwilio i ffactorau ffordd o fyw a'u heffaith ar iechyd a llesiant<br>3.1.4 Effeithiau ffordd o fyw eisteddog | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.1.1<br>Gofynion rolau gwasanaeth cyhoeddus amrywiol | Dylai'r dysgwyr ddeall gofynion y rolau gwasanaeth cyhoeddus amrywiol, gan gynnwys:<br><br>• pwysigrwydd cynnal iechyd meddwl da<br>• yr angen am wydnwch wrth ymdrin â sefyllfaoedd heriol<br>• sut y gall natur y gwaith (er enghraifft, patrymau shifftiau, oriau hir neu sefyllfaoedd pwysau uchel) effeithio ar allu gweithiwr gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni ei ddyletswyddau'n ddiogel<br>• y cyd-destun deddfwriaethol sy'n dylanwadu ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) (2015) a'i saith nod llesiant:<br>    • Cymru Lewyrchus<br>    • Cymru Gydnerth<br>    • Cymru Iachach<br>    • Cymru Fwy Cyfartal<br>    • Cymru o Gymunedau Cydlynus<br>    • Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br>    • Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | Dylai'r dysgwyr ddeall mentrau a chymorth sydd ar gael yn y gweithle i weithwyr gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau cefnogol megis:<br><br>• mentrau llesiant yn y gweithle<br>• caffis lles<br>• gwasanaethau Llesiant Gweithwyr GIG Cymru. |
| 3.1.2<br>Ymchwilio i faeth sylfaenol a'i effaith ar y corff wrth baratoi ar gyfer gweithgarwch corfforol | Dylai'r dysgwyr ddeall sut mae maeth yn helpu i baratoi ar gyfer gweithgarwch corfforol ac i wella ar ôl hynny wrth weithio mewn rolau gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys:<br><br>• swyddogaeth a ffynonellau maetholion hanfodol:<br>    • carbohydradau<br>    • brasterau<br>    • protein<br>    • mwynau<br>    • fitaminau<br>• swyddogaeth dŵr o ran:<br>    • rheoli tymheredd y corff<br>    • cludo maetholion i bob rhan o'r corff<br>    • iro cymalau.<br><br>Dylai'r dysgwyr ddeall canllawiau deietegol y llywodraeth, gan gynnwys y prif grwpiau bwyd sydd wedi'u cynrychioli yn y 'Canllaw Bwyta'n Dda':<br><br>• ffrwythau a llysiau<br>• tatws, bara, reis, pasta a charbohydradau startshlyd eraill<br>• pysgod, codlysiau, ffa, codlysiau sych, wyau a phroteinau eraill<br>• cynnyrch llaeth a dewisiadau amgen i gynnyrch llaeth<br>• olew a sbrediau. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| 3.1.3 Ymchwilio i ffactorau ffordd o fyw a'u heffaith ar iechyd a llesiant | Dylai'r dysgwyr ddeall sut mae ffactorau ffordd o fyw yn effeithio ar iechyd, llesiant a'r gallu i berfformio'n effeithiol mewn rolau gwasanaeth cyhoeddus. Mae ffactorau ffordd o fyw yn cynnwys:<br><br>• patrymau cysgu<br>• deiet iach<br>• gwneud ymarfer corff yn rheolaidd<br>• hylendid personol<br>• ysmygu<br>• yfed alcohol<br>• defnyddio cyffuriau. |
| 3.1.4 Effeithiau ffordd o fyw eisteddog | Dylai'r dysgwyr ddeall yr effeithiau negyddol y gall ffordd o fyw eisteddog ei chael ar unigolion o ran y canlynol:<br><br>• iechyd corfforol<br>• iechyd meddwl<br>• iechyd cymdeithasol<br>• y gallu i berfformio'n effeithiol mewn rôl gwasanaeth cyhoeddus. |

**3.2 Gofynion ffitrwydd a threfniadau asesu ar gyfer rolau yn y gwasanaethau cyhoeddus**

Yn y testun hwn, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:
3.2.1 Iechyd a ffitrwydd corfforol ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus
3.2.2 Profion ffitrwydd er mwyn ymuno â gwasanaeth cyhoeddus
3.2.3 Profion ffitrwydd sy'n mesur cydrannau ffitrwydd ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus
3.2.4 Adolygu data profion ffitrwydd
3.2.5 Dulliau ymarfer i wella ffitrwydd ar gyfer rolau gwasanaeth cyhoeddus

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.2.1<br>Iechyd a ffitrwydd corfforol ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus | Dylai'r dysgwyr ddeall cydrannau ffitrwydd, gan gynnwys:<br><br>• cydrannau sy'n gysylltiedig ag iechyd:<br>    • dygnwch aerobig/dygnwch cardiofasgwlar<br>    • dygnwch cyhyrol<br>    • cryfder<br>    • hyblygrwydd<br>    • cyfansoddiad y corff<br>• cydrannau sy'n gysylltiedig â sgìl:<br>    • cydbwysedd<br>    • pŵer<br>    • cydsymud<br>    • ystwythder<br>    • amser adweithio<br>    • cyflymder.<br><br>Dylai'r dysgwyr ddeall sut i baratoi'n ddiogel ar gyfer profion ffitrwydd, gan gynnwys: |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • asesiad risg ac ystyriaethau iechyd a diogelwch<br>• protocolau cynhesu a dadgynhesu<br>• offer priodol<br>• rôl yr unigolyn sy'n cynnal y prawf<br>• offer recordio fel dyfeisiau tracio ffitrwydd a monitro cyfradd curiad y galon.<br><br>Dylai'r dysgwyr ddeall mesuriadau iechyd corfforol a sut maen nhw'n dylanwadu ar berfformiad mewn profion ffitrwydd, gan gynnwys:<br><br>• pwysedd gwaed<br>• indecs màs y corff (BMI)<br>• cyfradd curiad y galon wrth orffwys. |
| 3.2.2<br>Profion ffitrwydd er mwyn ymuno â gwasanaeth cyhoeddus | Dylai'r dysgwyr ddeall y protocolau a'r gofynion mynediad ar gyfer y profion ffitrwydd a ddefnyddir mewn gwahanol rolau gwasanaeth cyhoeddus.<br><br>• Lluoedd Arfog EF<br>    ◦ Y Fyddin – ymarferion tynnu canol y glun, taflu pêl feddyginiaeth o'ch eistedd, rhedeg 2km<br>    ◦ Y Llynges – rhedeg 2.4km<br>    ◦ RAF – rhedeg 2.4km, prawf gwasg fyrfraich munud o hyd, prawf eisteddiadau munud o hyd<br>• Gwasanaethau brys<br>    ◦ Gwasanaeth yr heddlu – prawf ffitrwydd aml-gam, Prawf Cerdded a Rhedeg Melin Draed Chester (CTT)<br>    ◦ Gwasanaeth Tân ac Achub – Prawf Ffitrwydd Aml-Gam (MSFT), teclyn codi ysgol, llusgo unigolyn wedi'i anafu, a chario offer<br>    ◦ Gwasanaeth Ambiwlans Cymru – prawf camau YMCA, prawf cryfder gafael y llaw, ymarferion tynnu canol y glun.<br>• Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol<br>    ◦ Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF – Prawf gafael, Prawf dal tarian, prawf blîp, Prawf rhedeg i brofi ystwythder.<br><br>Dylai'r dysgwyr ddeall y safonau ffitrwydd gofynnol a'r rhesymau dros y safonau hyn mewn perthynas â gofynion corfforol pob rôl. |
| 3.2.3<br>Profion ffitrwydd sy'n mesur cydrannau ffitrwydd ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus | Dylai'r dysgwyr allu cyflawni amrywiaeth o brofion ffitrwydd sy'n gysylltiedig â chydrannau ffitrwydd, megis:<br><br>• ystwythder – prawf ystwythder Illinois<br>• cydbwysedd – safiad storc<br>• dygnwch aerobig/dygnwch cardiofasgwlar – prawf ffitrwydd aml-gam (MSFT)<br>• cydsymud – prawf taflu â'r ddwy law am yn ail<br>• hyblygrwydd – eistedd ac ymestyn<br>• dygnwch cyhyrol – prawf cario offer (Gwasanaeth Tân ac Achub)<br>• cryfder cyhyrol – prawf cryfder gafael y llaw |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • pŵer – naid fertigol<br>• amser adweithio – gollwng pren mesur<br>• cyflymder – sbrint 30/50 metr.<br><br>Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br><br>• cynnal profion ffitrwydd yn ddiogel<br>• dilyn gweithdrefnau cywir<br>• deall dilysrwydd a dibynadwyedd mewn profion ffitrwydd. |

| | |
|---|---|
| 3.2.4<br>Adolygu data profion ffitrwydd | Dylai'r dysgwyr allu dehongli eu lefelau ffitrwydd er mwyn:<br><br>• nodi cryfderau a meysydd i'w gwella<br>• cymharu canlyniadau yn erbyn y safonau ffitrwydd gofynnol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus<br>• cymharu'r canlyniadau â data normadol<br>• llunio gwaelodlin ar gyfer profion yn y dyfodol<br>• pennu targedau CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol). |
| 3.2.5<br>Dulliau ymarfer i wella iechyd a ffitrwydd ar gyfer rolau gwasanaeth cyhoeddus | Dylai'r dysgwyr ddeall y gwahanol ddulliau ymarfer a ddefnyddir i wella cydrannau ffitrwydd, gan gynnwys:<br><br>• ymarfer di-dor<br>• ymarfer ysbeidiol<br>• ymarfer cylchol<br>• ymarfer pwysau<br>• ymarfer plyometrig<br>• ymarfer fartlek<br>• ymarfer hyblygrwydd (er enghraifft, ymestyn statig, goddefol, a deinamig).<br><br>Dylai'r dysgwyr ddeall sut mae'r dulliau ymarfer hyn yn gwella iechyd, ffitrwydd a pherfformiad mewn rolau gwasanaeth cyhoeddus. |

## 3.3 Dylunio, gweithredu a gwerthuso rhaglen ymarfer iechyd a ffitrwydd

Yn y testun hwn, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:
3.3.1 Cynllunio rhaglen ymarfer iechyd a ffitrwydd
3.3.2 Cynnal rhaglen ymarfer iechyd a ffitrwydd
3.3.3 Gwerthuso rhaglen ymarfer iechyd a ffitrwydd

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.3.1<br>Cynllunio rhaglen ymarfer iechyd a ffitrwydd | Dylai'r dysgwyr allu cynllunio rhaglen ymarfer iechyd a ffitrwydd, gan gynnwys: |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

<table>
<tr><td></td><td>
<ul>
<li>nodi gofynion ffitrwydd ac iechyd rôl gwasanaeth cyhoeddus</li>
<li>casglu data ffitrwydd gwaelodlin o brofion</li>
<li>nodi cryfderau a gwendidau personol</li>
<li>gosod targedau CAMPUS</li>
<li>ystyried ffactorau personol (iechyd, ffitrwydd, oedran, rhywedd, ffordd o fyw, amser, cost)</li>
<li>ystyried ffactorau amgylcheddol (y cyfleusterau a'r offer sydd ar gael)</li>
<li>cynllunio cynllun ymarfer cynyddol, gan dargedu cydrannau ffitrwydd penodol.</li>
</ul>
Dylai'r dysgwyr allu cyflawni'r gofynion diogelwch cyn ymarfer, gan gynnwys:
<ul>
<li>PAR-Q</li>
<li>ffurflenni cydsyniad</li>
<li>asesiadau risg</li>
<li>gwiriadau offer.</li>
</ul>
</td></tr>
<tr><td>3.3.2<br>Cynnal rhaglen ymarfer iechyd a ffitrwydd</td><td>
Dylai'r dysgwyr allu gweithredu a monitro rhaglen ymarfer iechyd a ffitrwydd, gan gynnwys:
<ul>
<li>cymhwyso egwyddorion ymarfer (SPOV yn Saesneg):
<ul>
<li>penodoldeb</li>
<li>dilyniant</li>
<li>gorlwytho</li>
<li>amrywiant</li>
</ul></li>
<li>addasu elfennau o'r sesiynau ymarfer, gan gynnwys:
<ul>
<li>parhad</li>
<li>dwysedd</li>
<li>amlder.</li>
</ul></li>
</ul>
</td></tr>
<tr><td>3.3.3<br>Gwerthuso rhaglen ymarfer iechyd a ffitrwydd</td><td>
Dylai'r dysgwyr allu gwerthuso effeithiolrwydd rhaglen ymarfer iechyd a ffitrwydd drwy wneud y canlynol:
<ul>
<li>defnyddio profion ffitrwydd i fesur gwelliannau o brofi gwaelodlin</li>
<li>asesu effeithiolrwydd y rhaglen wrth gyflawni targedau CAMPUS</li>
<li>nodi cryfderau'r rhaglen</li>
<li>nodi meysydd i'w gwella yn y dyfodol</li>
<li>cymharu'r canlyniadau â data normadol</li>
<li>nodi anghenion datblygu iechyd a ffitrwydd yn y dyfodol yn seiliedig ar ofynion rôl gwasanaeth cyhoeddus.</li>
</ul>
Dylai'r dysgwyr allu datblygu strategaethau ar gyfer gwella yn y dyfodol, gan gynnwys:
<ul>
<li>gwahanol ddulliau ymarfer</li>
<li>cymhwyso egwyddorion ymarfer yn well</li>
<li>gwelliannau o ran maeth</li>
<li>gwelliannau o ran dewisiadau ffordd o fyw.</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith.

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- Ymweliadau â sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus neu gyfleusterau ymarfer – gan ganiatáu i'r dysgwyr arsylwi ar safonau ffitrwydd, arferion ymarfer corfforol a systemau cefnogi llesiant a ddefnyddir yn y gwasanaethau cyhoeddus.
- Siaradwyr gwadd o'r gwasanaethau cyhoeddus neu weithwyr ffitrwydd proffesiynol i drafod gofynion ffitrwydd corfforol, llesiant meddyliol, gwydnwch, rheoli straen – gan helpu'r dysgwyr i ddeall pwysigrwydd cynnal ffordd iach o fyw ar gyfer rolau gwasanaeth cyhoeddus.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau ffitrwydd a llesiant ymarferol, fel profion ffitrwydd, hyfforddiant cylched, heriau tîm neu dechnegau ymlacio ac ymwybyddiaeth ofalgar – gan alluogi'r dysgwyr i brofi gofynion corfforol a meddyliol swydd gwasanaeth cyhoeddus.
- Ymchwil i safonau ffitrwydd a chymorth llesiant o fewn gwahanol wasanaethau cyhoeddus - gan alluogi'r dysgwyr i ddeall disgwyliadau, gofynion mynediad a chyfrifoldebau proffesiynol parhaus sy'n gysylltiedig ag iechyd a ffitrwydd.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Uned 4 Dinasyddiaeth a Chymuned yn y Gwasanaethau Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| ODA | 72 awr |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 60% |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r uned hon yn cyflwyno'r dysgwyr i'r cysyniad o ddinasyddiaeth a'i rôl wrth hybu llesiant cymunedol ledled Cymru a'r DU. Mae'n archwilio hawliau a chyfrifoldebau dinasyddion, pwysigrwydd cyfranogiad gweithredol mewn cymdeithas, a sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cyfrannu at greu cymunedau diogel, cynhwysol a chynaliadwy.<br>Bydd y dysgwyr yn archwilio rolau'r llywodraeth, awdurdodau lleol, a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth lunio polisïau a darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion lleol. Mae'r uned hefyd yn tynnu sylw at strategaethau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, egwyddorion cydlyniad, ac effaith deddfwriaeth fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), sy'n nodi nodau llesiant cenedlaethol ar gyfer dyfodol teg a chynaliadwy.<br>Mae'r wybodaeth hon yn cefnogi cynnydd yn y maes galwedigaethol drwy ddatblygu dealltwriaeth o sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio ar y cyd i gryfhau cymunedau. Mae'n rhoi'r sgiliau i'r dysgwyr ymgysylltu â materion lleol, cynllunio projectau llesiant yn y gymuned neu yn yr ysgol, a chyfrannu at fentrau sy'n hybu cydraddoldeb, gwydnwch a llesiant tymor hir. |
| Testunau | 4.1 Dinasyddiaeth a llesiant cymunedol yng Nghymru a'r DU<br>4.2 Archwilio materion llesiant lleol ac ymatebion gwasanaethau cyhoeddus<br>4.3 Cynllunio, cyflwyno a gwerthuso project llesiant bach annibynnol yn y gymuned neu'r ysgol |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad di-arholiad 10 awr (heb gynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r project llesiant bach annibynnol yn y gymuned neu'r ysgol)<br>98 marc<br>Mae'r asesiad yn cynnwys briff penodol ar gyfer yr asesiad a thair tasg. Fel rhan o'r asesiad, bydd angen i'r dysgwyr gynllunio, cynnal a gwerthuso project llesiant bach annibynnol yn y gymuned neu'r ysgol.<br>Rhaid cwblhau Tasg 1, Tasg 2, Tasg 3(a), 3(b)(ii) a 3(c) o fewn 10 awr.<br>Awgrymir y bydd Tasg 3(b)(i), cwblhau'r project llesiant bach annibynnol yn y gymuned neu'r ysgol, yn cymryd rhwng 6 a 12 awr. Caiff yr agwedd hon ar yr asesiad ei chyflawni heb oruchwyliaeth. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesu | Bydd angen yr adnoddau canlynol, o leiaf, i gyflawni'r asesiad:<br>• mynediad i'r rhyngrwyd, TG a meddalwedd briodol.<br>**Ni** chaniateir defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI)**.** |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

<table>
<tr><td>Cysylltiadau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC</td><td>Gallai'r unedau Sgiliau Bywyd a Gwaith canlynol ategu cyflwyno'r uned hon:<br>Sgiliau Bywyd: Cyfranogiad Cymunedol<br>Sgiliau Bywyd: Democratiaeth ar Waith<br>Sgiliau Bywyd: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant<br>Sgiliau Bywyd: Iechyd a Llesiant Meddyliol<br>Sgiliau Bywyd: Cynaliadwyedd ar Waith<br>Sgiliau Bywyd: Gwaith tîm<br>Sgiliau Bywyd: Gwerthoedd ar gyfer Bywyd<br>Sgiliau Gwaith: Gwasanaeth i gwsmeriaid<br>Sgiliau Gwaith: Goresgyn Rhwystrau<br>Sgiliau Gwaith: Hawliau a Chyfrifoldebau yn y Gweithle<br>Sgiliau Gwaith: Llesiant a Gwaith</td></tr>
</table>

## Cynnwys

<table>
<tr><th colspan="2">4.1 Dinasyddiaeth a llesiant cymunedol yng Nghymru a'r DU</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>4.1.1 Dinasyddiaeth a Chymuned yng Nghymru a'r DU<br>4.1.2 Rôl y Llywodraeth ac awdurdodau lleol<br>4.1.3 Ymgysylltu â'r gymuned a chydlyniad<br>4.1.4 Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u rôl wrth gefnogi cymunedau<br>4.1.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) (2015) a'i heffaith ar Gymru</td></tr>
<tr><th>Adran</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>4.1.1<br>Dinasyddiaeth a chymuned yng Nghymru a'r DU</td><td>Dylai'r dysgwyr ddeall y cysyniad o ddinasyddiaeth yng Nghymru a'r DU, gan gynnwys:<ul><li>beth sy'n gwneud person yn ddinesydd<ul><li>hawl geni (wedi eich geni yn y DU)</li><li>tras (wedi eich geni dramor i rieni Prydeinig)</li><li>yn briod â dinesydd Prydeinig</li><li>cynllun Windrush (hawliau - er enghraifft pleidleisio, addysg, cydraddoldeb, hawliau dynol)</li></ul></li><li>cyfrifoldebau dinasyddiaeth, er enghraifft:<ul><li>ufuddhau i ddeddfau</li><li>parchu eraill</li><li>helpu'r gymuned</li><li>diogelu'r amgylchedd</li><li>hybu cynaliadwyedd.</li></ul></li></ul></td></tr>
<tr><td>4.1.2<br>Rôl y Llywodraeth ac awdurdodau lleol</td><td>Dylai'r dysgwyr ddeall sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud yng Nghymru a chyfrifoldebau gwahanol lefelau o lywodraeth, gan gynnwys:<ul><li>rôl Llywodraeth y DU (San Steffan):<ul><li>gwneud deddfau sy'n berthnasol ledled y DU</li><li>trefniadau amddiffyn a diogelwch gwladol</li><li>rheoli ffiniau a mewnfudo</li><li>rheoli budd-daliadau lles y DU</li><li>gosod deddfau ar gyfer plismona a'r system gyfiawnder genedlaethol</li></ul></li></ul></td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<ul>
<li><ul><li>rhoi cyllid i Lywodraeth Cymru drwy gyllideb y DU</li></ul></li>
<li>rôl Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru:
<ul>
<li>Senedd Cymru:
<ul>
<li>gwneud deddfau i Gymru mewn meysydd datganoledig</li>
<li>trafod materion sy'n effeithio ar Gymru</li>
<li>dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy gwestiynu ei phenderfyniadau</li>
</ul></li>
<li>Llywodraeth Cymru:
<ul>
<li>cynnig deddfau newydd i Gymru</li>
<li>rheoli a darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol, fel y GIG ac addysg</li>
<li>rhoi polisïau ar waith sy'n effeithio ar bobl sy'n byw yng Nghymru</li>
</ul></li>
</ul></li>
<li>rôl awdurdodau lleol yng Nghymru wrth ddarparu llawer o wasanaethau o ddydd i ddydd o fewn cymunedau lleol:
<ul>
<li>casglu gwastraff cartrefi ac ailgylchu</li>
<li>rhedeg ysgolion lleol</li>
<li>darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol</li>
<li>darparu gwasanaethau tai</li>
<li>gweithio gyda sefydliadau eraill drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wella llesiant cymunedau lleol.</li>
</ul></li>
</ul>
</td>
</tr>
<tr>
<td>4.1.3<br>Ymgysylltu â'r gymuned a chydlyniad</td>
<td>
Dylai'r dysgwyr ddeall sut mae gwahanol wasanaethau cyhoeddus yn hybu dinasyddiaeth, ymgysylltu â'r gymuned a llesiant cymunedau, er enghraifft:
<ul>
<li>gwasanaeth yr heddlu, gan gynnwys:
<ul>
<li>sicrhau diogelwch cymunedol</li>
<li>meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd cadarnhaol â'r cyhoedd</li>
<li>gorfodi deddfau er mwyn cynnal trefn a diogelu hawliau dinasyddion</li>
<li>cefnogi cydlyniad cymunedol drwy weithio gyda chymunedau lleol</li>
</ul></li>
<li>gwasanaeth tân ac achub, gan gynnwys:
<ul>
<li>atal niwed drwy raglenni addysg ac ymwybyddiaeth i'r gymuned</li>
<li>cynnal ymgyrchoedd diogelwch a gwiriadau diogelwch</li>
<li>cefnogi'r egwyddorion atal a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)</li>
</ul></li>
<li>y GIG, gan gynnwys:
<ul>
<li>cefnogi llesiant corfforol a meddyliol dinasyddion</li>
<li>ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd ar draws cymunedau</li>
<li>cyfrannu at nod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau 'Cymru iachach'</li>
</ul></li>
<li>Lluoedd Arfog EF, gan gynnwys:
<ul>
<li>amddiffyn diogelwch gwladol</li>
<li>rhoi cymorth brys a chymorth mewn trychineb</li>
<li>helpu awdurdodau sifil lle bo angen</li>
</ul></li>
<li>awdurdodau lleol, gan gynnwys:</li>
</ul>
</td>
</tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

<table>
<tr><td></td><td><ul><li>cydgysylltu gwasanaethau lleol, megis gofal cymdeithasol a thai</li><li>hybu cyfleoedd cyfartal i bob dinesydd</li><li>diwallu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned leol.</li></ul></td></tr>
<tr><td>4.1.4<br>Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u rôl wrth gefnogi cymunedau</td><td>Dylai'r dysgwyr ddeall beth yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sut maen nhw'n cefnogi llesiant cymunedau yn ardaloedd eu hawdurdod lleol, gan gynnwys:<ul><li>pwrpas Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus i ddod â sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus allweddol ynghyd i gydweithio i wella llesiant cymunedau</li><li>aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, megis awdurdodau lleol, byrddau iechyd, gwasanaethau tân ac achub a chyrff adnoddau naturiol</li><li>sut mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi blaenoriaethau lleol ac yn pennu amcanion i wella llesiant yn eu hardaloedd.</li><li>mae enghreifftiau o flaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys:<ul><li>gwella iechyd a llesiant</li><li>mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb</li><li>lleihau allyriadau carbon a chefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol.</li></ul></li></ul></td></tr>
<tr><td>4.1.5<br>Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) (2015) a'i heffaith ar Gymru</td><td>Dylai'r dysgwyr ddeall pwrpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) a sut mae'n anelu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.<br><br>Mae Deddf 2015 yn cynnwys saith nod llesiant:<ul><li>Cymru Lewyrchus</li><li>Cymru Gydnerth</li><li>Cymru Iachach</li><li>Cymru Fwy Cyfartal</li><li>Cymru o Gymunedau Cydlynus</li><li>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu</li><li>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.</li></ul>Dylai'r dysgwyr ddeall yr effaith y mae'r Ddeddf wedi'i chael ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys:<ul><li>hybu datblygu cynaliadwy</li><li>ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus lunio a chyhoeddi amcanion llesiant sy'n cyd-fynd â'r saith nod llesiant</li><li>annog trefniadau cydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cyflawni'r nodau hyn a gwella'r canlyniadau i gymunedau.</li></ul></td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| 4.2 Archwilio materion llesiant lleol ac ymatebion gwasanaethau cyhoeddus | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>4.2.1 Casglu a dehongli gwybodaeth am fater lleol sy'n ymwneud â llesiant y gymuned<br>4.2.2 Sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn mynd i'r afael â mater lleol sy'n ymwneud â llesiant y gymuned ar hyn o bryd<br>4.2.3 Awgrymu gwelliannau i'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir mewn perthynas â mater lleol sy'n ymwneud â llesiant y gymuned | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 4.2.1<br>Casglu a dehongli gwybodaeth am fater lleol sy'n ymwneud â llesiant y gymuned | Dylai'r dysgwyr allu ymchwilio a dehongli gwybodaeth am faterion lleol sy'n ymwneud â llesiant y gymuned mewn ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru, gan gynnwys:<br><br>• ymchwilio i'r ddemograffeg leol (er enghraifft: proffil oedran, lefelau cyflogaeth, nodweddion gwledig/trefol)<br>• nodi anghenion lleol yn ardal eu hawdurdod lleol (er enghraifft: gofynion o ran tai, anghydraddoldebau iechyd, cyfyngiadau trafnidiaeth)<br>• adolygu Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB), gan gynnwys ei amcanion a'r gwelliannau y mae'n anelu at eu cyflawni<br>• cynnal ymchwil gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau (er enghraifft, ffynonellau ar-lein, y cyfryngau lleol, data cyhoeddus) i ymchwilio i fater sy'n ymwneud â llesiant y gymuned sy'n gysylltiedig ag un o amcanion presennol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (er enghraifft, lefelau troseddu, diffyg amwynderau lleol neu ynysu cymdeithasol). |
| 4.2.2<br>Sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn mynd i'r afael â mater lleol sy'n ymwneud â llesiant y gymuned ar hyn o bryd | Dylai'r dysgwyr allu ymchwilio i sut mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn ymateb i fater lleol sy'n ymwneud â llesiant y gymuned, gan gynnwys:<br><br>• mentrau penodol<br>• gwasanaethau a ddarperir i gefnogi'r gymuned<br>• projectau neu bartneriaethau a weithredir gan un gwasanaeth cyhoeddus neu fwy (er enghraifft, gwasanaethau'r heddlu, awdurdodau lleol, neu wasanaethau tân ac achub) sy'n anelu at fynd i'r afael â'r mater a nodwyd. |
| 4.2.3<br>Awgrymu gwelliannau i'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir mewn perthynas â mater lleol sy'n ymwneud â llesiant y gymuned | Dylai'r dysgwyr allu cynnig a chyfiawnhau argymhellion ymarferol a realistig i wella sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i fater lleol cyfredol sy'n ymwneud â'r gymuned, gan gynnwys:<br><br>• nodi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol, megis:<br>  ◦ anghenion cymunedol nad ydynt yn cael eu diwallu'n llawn<br>  ◦ cydweithio cyfyngedig rhwng asiantaethau<br>  ◦ cyfyngiadau o ran adnoddau (er enghraifft, staffio neu gyllid) |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • rhwystrau sy'n atal rhai grwpiau rhag cael cymorth<br>• cynnig argymhellion realistig sydd:<br>  • yn gyflawnadwy ac yn berthnasol i ardal yr awdurdod lleol<br>  • yn gysylltiedig â chynllun llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>  • yn anelu at wella canlyniadau i'r gymuned leol. |

| 4.3 Cynllunio, cyflawni a gwerthuso project llesiant bach annibynnol yn y gymuned neu'r ysgol | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>4.3.1 Projectau bach a ddefnyddir i wella llesiant mewn lleoliadau cymunedol<br>4.3.2 Cynnig project llesiant bach annibynnol yn y gymuned neu'r ysgol<br>4.3.3 Cymhwyso a dangos sgiliau perthnasol wrth gyflawni project llesiant bach annibynnol yn y gymuned neu'r ysgol<br>4.3.4 Gwerthuso effaith project llesiant bach annibynnol yn y gymuned neu'r ysgol | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 4.3.1<br>Projectau bach a ddefnyddir i wella llesiant mewn lleoliadau cymunedol | Dylai'r dysgwyr ddeall sut y caiff strategaethau a mentrau bach eu defnyddio i wella llesiant mewn lleoliadau cymunedol. Dylai'r rhain fod yn gysylltiedig â nodau llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Gallai enghreifftiau gynnwys:<br><br>• rhaglenni mentora cyfoedion i ddisgyblion iau<br>• trefnu gweithdai adolygu<br>• cyfrannu at ymgyrch ymwybyddiaeth o ailgylchu yn yr ysgol<br>• cefnogi clybiau amser cinio i ddisgyblion iau<br>• creu taflenni gwybodaeth sy'n annog bwyta'n iach<br>• rhoi system cefnogi cyfoedion neu system cyfeillio ar waith<br>• creu pecyn croeso i ddisgyblion newydd<br>• cynllunio gweithgareddau ar gyfer digwyddiad cymunedol neu ddiwylliannol fel Dydd Gŵyl Dewi. |
| 4.3.2<br>Cynnig project llesiant bach annibynnol yn y gymuned neu'r ysgol | Dylai'r dysgwyr allu creu cynnig ar gyfer project bach annibynnol sy'n mynd i'r afael ag anghenion llesiant mewn lleoliad yn y gymuned neu'r ysgol.<br><br>Dylai'r cynnig hwn gynnwys:<br><br>• teitl project<br>• nodau ac amcanion y project<br>• y gweithgareddau a fyddai'n cael eu cynnal<br>• esboniad o sut mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag anghenion llesiant<br>• yr adnoddau sydd eu hangen er enghraifft, deunyddiau, lleoliadau ac adnoddau digidol<br>• amserlen – pryd ac am ba hyd |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • cyfiawnhad yn esbonio sut mae'r project yn cyd-fynd ag amcanion a nodau llesiant presennol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| 4.3.3<br>Cymhwyso a dangos sgiliau perthnasol wrth gyflawni project llesiant bach annibynnol yn y gymuned neu'r ysgol | Dylai'r dysgwyr allu cymhwyso a dangos sgiliau perthnasol wrth gyflawni project llesiant bach annibynnol yn y gymuned neu'r ysgol, gan gynnwys:<br><br>• defnydd effeithiol a diogel o adnoddau, gan gynnwys offer, defnyddiau ac adnoddau digidol<br>• arferion gwaith cyfrifol a chynaliadwy, gan gynnwys ystyried yr effaith ar yr amgylchedd a'r broses o wneud penderfyniadau moesegol<br>• cyfathrebu ysgrifenedig a/neu lafar cynhwysol, wedi'i deilwra at wahanol gynulleidfaoedd<br>• ymddygiad proffesiynol, gan gynnwys:<br>    • rheoli amser drwy fodloni'r amserlenni<br>    • bod yn barod a chymryd cyfrifoldeb dros eich gwaith eich hun<br>    • empathi a dealltwriaeth o anghenion pobl eraill<br>• datrys problemau, gan gynnwys nodi heriau, archwilio atebion ac addasu dulliau gweithredu lle bo angen. |
| 4.3.4<br>Gwerthuso effaith project llesiant bach annibynnol yn y gymuned neu'r ysgol | Dylai'r dysgwyr allu adolygu llwyddiant project llesiant bach annibynnol yn y gymuned neu'r ysgol, gan gynnwys:<br><br>• defnyddio gwahanol ffynonellau adborth i lywio'r adolygiad, megis:<br>    • adborth gan gyfranogwyr (er enghraifft, drwy holiaduron/arolygon)<br>    • adfyfyrio personol<br>    • tystiolaeth fideo neu ffotograffig<br>    • arsylwadau/adborth athrawon<br>• dadansoddi'r data a gasglwyd i gefnogi'r adolygiad<br>• gwerthuso i ba raddau y cyflawnwyd nodau ac amcanion y project<br>• nodi cryfderau'r project a meysydd i'w gwella yn y dyfodol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- Ymgysylltu â sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a grwpiau cymunedol lleol - gan alluogi'r dysgwyr i ddeall sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi cymunedau ac yn hybu dinasyddiaeth a diogelwch.
- Siaradwyr gwadd o wasanaethau cyhoeddus neu bartneriaid cymunedol i esbonio eu rôl wrth ymgysylltu â'r gymuned, atal troseddau, mentrau diogelwch cyhoeddus a chefnogi grwpiau amrywiol o fewn cymdeithas – gan alluogi'r dysgwyr i glywed profiadau uniongyrchol am y ffordd mae rolau gwasanaethau cyhoeddus yn rhyngweithio â gwahanol grwpiau o gymunedau.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau neu brojectau cymunedol, fel gwirfoddoli, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth neu fentrau diogelwch lleol – galluogi'r dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o werthoedd a chyfrifoldebau gwasanaethau cyhoeddus.
- Astudiaethau achos a gweithgareddau ymchwil sy'n canolbwyntio ar gyfranogiad go iawn y gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau – bydd hyn yn caniatáu i'r dysgwyr archwilio cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant ac effaith gwasanaethau cyhoeddus ar gydlyniad cymunedol.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# 3. Asesu

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoliadau

Mae amcanion asesu'r cymhwyster hwn wedi'u nodi isod. Rhaid i'r dysgwyr:

### AA1
Dangos gwybodaeth am wasanaethau cyhoeddus a dealltwriaeth ohonynt

### AA2
Cymhwyso gwybodaeth am wasanaethau cyhoeddus a dealltwriaeth ohonynt

### AA3
Dadansoddi a/neu werthuso gwybodaeth, tystiolaeth neu syniadau, er mwyn gwneud cysylltiadau a/neu ffurfio barn resymegol o fewn cyd-destunau gwasanaethau cyhoeddus

### AA4
Dangos a chymhwyso sgiliau ymarferol perthnasol mewn cyd-destunau gwasanaethau cyhoeddus

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu i bob uned ac i'r cymhwyster yn gyffredinol.

| | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 10% | 10% | - | - | 20% |
| Uned 2 | - | 6% | 14% | - | 20% |
| Uned 3 | - | - | 20% | 40% | 60% |
| Uned 4 | - | - | 20% | 40% | 60% |
| Pwysoliad cyffredinol | 10% | 16% | 34% | 40% | 100% |

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 3.2 Trosolwg o'r Asesu

### Uned 1

Asesir yr uned hon drwy brawf sector sy'n cael ei osod a'i farcio'n allanol a fydd ar gael yng nghyfres mis Ionawr a chyfres yr haf. Mae'n ofynnol i'r dysgwyr gwblhau prawf sector byr, un awr o hyd, sydd wedi'i gynllunio i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol (AA1 ac AA2 yn unig).

Bydd y prawf yn cael ei farcio allan o 50 marc a bydd yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau gwrthrychol, megis cwestiynau dewis lluosog, ymateb lluosog, llenwi'r bylchau, llusgo a gollwng, a chwestiynau man poeth.

Rhaid i'r prawf gael ei sefyll o dan amodau arholiad a oruchwylir yn unol â gofynion y CGC (gweler http://www.jcq.org.uk/exams-office/instructions-for-conducting-examinations-ice/) .

Bydd yr asesiad cyntaf yn digwydd ym mis Ionawr 2028. Gall canolfannau gofrestru ymgeiswyr ar gyfer fersiwn copi caled neu ar sgrin o'r prawf.

Mae'r prawf hwn yn cyfrannu 20% o gyfanswm gradd y cymhwyster ac mae'n cael ei osod a'i farcio'n allanol gan CBAC.

### Uned 2

Asesir yr uned hon drwy asesiad di-arholiad sy'n cael ei osod a'i farcio'n allanol. Mae gofyn i ddysgwyr gwblhau cyfres o dasgau yn seiliedig ar friff sy'n cael ei osod yn allanol. Ychwanegwch fanylion yr asesiad ar gyfer eich pwnc chi.

Bydd yr asesiad yn cael ei ryddhau drwy'r Porth yn ystod wythnos gyntaf mis Medi i'w ddefnyddio yn y flwyddyn academaidd honno. Bydd yr aseiniad yn newid yn flynyddol. Ni ddylai'r dysgwyr gael mynediad i'r aseiniad na'r tasgau cysylltiedig tan ddechrau'r asesiad. Bydd gan ganolfannau'r hyblygrwydd i drefnu'r asesiad ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cyfrannu 20% o gyfanswm gradd y cymhwyster a bwriedir iddo gymryd 5 awr i'w gwblhau. Gall canolfannau ddewis cyflwyno'r asesiad mewn un sesiwn neu ar draws sawl sesiwn fyrrach, yn dibynnu ar anghenion dysgwyr a hyd y tasgau. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio allan o 62 marc.

Rhaid cyflwyno'r asesiad yn ddigidol, naill ai fel ymatebion wedi'u hysgrifennu â llaw a'u sganio neu wedi'u cwblhau'n ddigidol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Uned 3

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad wedi'i osod yn allanol, a fydd yn cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. Mae gofyn i'r dysgwyr gwblhau cyfres o dasgau yn seiliedig ar friff sy'n cael ei osod yn allanol.

Bydd y briff yn cael ei ryddhau trwy'r Porth ac ni fwriedir iddo newid dros hyd oes y fanyleb. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau eu bod yn defnyddio fersiwn gyfredol yr asesiad fel y'i cyhoeddwyd ar y Porth. Bydd gan ganolfannau'r hyblygrwydd i drefnu'r asesiad ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cyfrannu 60% o gyfanswm gradd y cymhwyster a bwriedir iddo gymryd tua 11 awr i'w gwblhau. Gall canolfannau gyflwyno'r asesiad ar draws sawl sesiwn fyrrach, yn dibynnu ar anghenion y dysgwyr a hyd y tasgau. Rhaid cwblhau Tasg 1, Tasg 2, a Thasg 3(a), 3(b)(ii) a 3(c) o fewn 11 awr. Awgrymir y bydd Tasg 3(b)(i), cwblhau'r prawf ffitrwydd a'r rhaglen ymarfer chwech wythnos, yn cymryd rhwng 6 a 12 awr. Gellir cyflawni'r agwedd hon ar yr asesiad heb oruchwyliaeth. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio allan o 98 marc.

Rhaid cyflwyno tystiolaeth ar gyfer cymedroli allanol yn ddigidol, naill ai fel ymatebion wedi'u hysgrifennu â llaw a'u sganio, neu wedi'u cwblhau'n electronig.

## Uned 4

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad wedi'i osod yn allanol, a fydd yn cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. Mae gofyn i'r dysgwyr gwblhau cyfres o dasgau yn seiliedig ar friff sy'n cael ei osod yn allanol.

Bydd y briff yn cael ei ryddhau trwy'r Porth ac ni fwriedir iddo newid dros hyd oes y fanyleb. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau eu bod yn defnyddio fersiwn gyfredol yr asesiad fel y'i cyhoeddwyd ar y Porth. Bydd gan ganolfannau'r hyblygrwydd i drefnu'r asesiad ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cyfrannu 60% o gyfanswm gradd y cymhwyster a bwriedir iddo gymryd tua 10 awr i'w gwblhau. Gall canolfannau gyflwyno'r asesiad ar draws sawl sesiwn fyrrach, yn dibynnu ar anghenion y dysgwyr a hyd y tasgau. Rhaid cwblhau Tasg 1, Tasg 2, Tasg 3(a), 3(b)(ii) a 3(c) o fewn 10 awr. Awgrymir y bydd Tasg 3(b)(i), cyflwyno project llesiant bach annibynnol yn y gymuned neu'r ysgol, yn cymryd rhwng 6 a 12 awr. Gellir cyflawni'r agwedd hon ar yr asesiad heb oruchwyliaeth. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio allan o 98 marc.

Rhaid cyflwyno tystiolaeth ar gyfer cymedroli allanol yn ddigidol, naill ai fel ymatebion wedi'u hysgrifennu â llaw a'u sganio, neu wedi'u cwblhau'n electronig.

## 3.3 Rheoli'r asesiad di-arholiad

Mae'r asesiad di-arholiad wedi'i strwythuro ar draws tri chyfnod allweddol: gosod tasgau, gwneud tasgau, a marcio tasgau.

Rhaid i bob asesiad di-arholiad gadw at yr egwyddorion a nodir yn nogfen y CGC Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Asesiadau Di-arholiad (Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol) a CGC Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn Asesiadau: Diogelu Uniondeb Cymwysterau. Noder **nad** yw canllawiau'r CGC ar gyfer Manylebau TAG a TGAU yn berthnasol i'r cymhwyster hwn.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Gosod tasgau

Darperir pecynnau asesu ar gyfer pob uned yn unol â'r trefniadau a nodir yn 3.2.

## Gwneud Tasgau

Mae cwblhau'r asesiad di-arholiad yn cael ei lywio gan ddau gam:

- y cam ymchwil
- cam yr Asesiad Di-arholiad.

Efallai y gofynnir i'r dysgwyr gynnal ymchwil fel rhan o'r cam ymchwil, gellir dod o hyd i wybodaeth am y cam ymchwil gan gynnwys dull ymchwil a chyfeirio, yn y pecyn asesu.

Yn ystod cam yr asesiad di-arholiad gellir dod o hyd i wybodaeth am yr amodau asesu, wedi'u categoreiddio fel uchel, canolig ac isel yn y pecyn asesu. Gellir hefyd dod i hyd i wybodaeth am adnoddau, wedi'u categoreiddio fel dim, penodol, ac wedi'u caniatáu yn y pecyn asesu.

Mae rhagor o wybodaeth am y cam ymchwil a cham yr asesiad di-arholiad, gan gynnwys gwybodaeth am y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI) ar gael yng Nghanllaw i Athrawon CBAC Cynnal Asesiad Di-arholiad mewn Cymwysterau Cenedlaethol 14–16 a Chanllaw i Ymgeiswyr Cynnal Asesiad Di-arholiad mewn Cymwysterau Cenedlaethol 14–16.

Mae ystyriaethau eraill wrth wneud tasgau, yn cynnwys:

- Amser: Mae pob pecyn asesu yn nodi cyfanswm yr amser sydd ar gael; rhoddir amser awgrymedig ar gyfer pob tasg er y gall ymgeiswyr ddyrannu'r amser hwn ar draws tasgau fel bo'n briodol
- Goruchwylio a dilysu: Mae'r pecyn asesu yn nodi'r gofynion goruchwylio. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y dysgwyr yn cael eu goruchwylio gan athro wrth gwblhau tasgau asesu. Gall athrawon egluro gofynion tasgau ond rhaid iddynt beidio â rhoi adborth ar y dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu. Rhaid i'r dysgwyr ac athrawon lofnodi datganiadau sy'n cadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd.

## Marcio Tasgau

Ar gyfer asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y ganolfan, rhaid i'r holl farcio gael ei wneud gan athro dynodedig sydd ag arbenigedd pwnc priodol, gan ddefnyddio'r meini prawf marcio a ddarperir yn y pecyn asesu. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth gyd-fynd â'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

Mae'n rhaid anodi tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn dangos sut mae'n bodloni'r meini prawf marcio.

Lle bo angen, rhaid dogfennu tystiolaeth o berfformiad (er enghraifft, cyflwyniadau) gan ddefnyddio cofnodion arsylwi sy'n cynnwys sylwadau disgrifiadol a chrynodol.

Mae athrawon yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- bod yr asesiad yn cael ei gynnal yn unol â disgwyliadau'r pecyn asesu a chanllawiau'r CGC
- bod dyfarniadau yn cael eu gwneud yn erbyn y datganiadau band perfformiad yn unig
- bod y dystiolaeth yn ddilys, wedi'i hanodi'n glir, ac wedi'i chofnodi'n gywir
- pan ddefnyddir cofnodion arsylwi, eu bod yn cynnwys digon o fanylion i gefnogi penderfyniadau asesu.

© WJEC CBAC Ltd 2026

DRAFT

## 3.4 Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad

Gall athrawon ganiatáu un cyfle i ddysgwr wella ei dystiolaeth a'i hailgyflwyno i'w marcio cyn cyflwyno'r marciau terfynol i'w cymedroli. Ailgyflwyno yw'r enw ar y broses hon.

Rhaid trefnu'r asesiad mewnol yn ddigon ymlaen llaw i allu caniatáu digon o amser i gynnwys y cyfnod ailgyflwyno hwn, lle bo angen gwneud hynny, cyn y cymedroli allanol. Rhaid i'r dysgwyr gwblhau'r asesiad cyflawn cyn i'w gwaith gael ei farcio yn y lle cyntaf, a chyn awdurdodi unrhyw ailgyflwyno sydd ei angen.

Rhaid i unrhyw adborth a dderbynnir gan ddysgwyr:

- fod yn ffeithiol, ac yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn eu gwaith.
- osgoi cyfarwyddo dysgwyr ar sut i wella eu marc
- gael ei ddogfennu a'i ddarparu i'w gymedroli'n allanol os gofynnir am hynny.

Rhaid i athrawon beidio â:

- chaniatáu sawl ailgyflwyniad ar sail mân newidiadau yn dilyn adborth
- caniatáu i'r dysgwyr ychwanegu, newid, neu ddileu unrhyw waith ar ôl i'r ailgyflwyniad gael ei farcio.

Nid yw'n ofynnol i'r dysgwyr gynhyrchu set hollol newydd o dystiolaeth ar gyfer ailgyflwyniad. Dylent ganolbwyntio ar y meysydd lle na wnaethant ennill y marc a ddymunwyd. O ganlyniad, efallai na fydd angen yr amser llawn a nodir yn y pecyn asesu, er y gallant ddefnyddio hyd at y dyraniad llawn os oes angen. Mae'r pecyn asesu yn nodi faint o amser yn fras y dylai'r dysgwyr ei dreulio yn cwblhau pob tasg. Pan fydd dysgwyr yn canolbwyntio ar dasgau penodol i'w hailgyflwyno, ni ddylai'r amser a ganiateir fod yn fwy na chyfanswm yr amser a awgrymir ar gyfer y tasgau hynny.

Nid oes angen creu taflen gyflwyno marciau ymgeisydd ar wahân i'w hailgyflwyno; Gellir diweddaru'r daflen wreiddiol gyda'r marciau diwygiedig a sylwadau ychwanegol. Dylai canolfannau gadw cofnodion mewnol o ailgyflwyniadau i ddarparu llwybr archwilio clir, a fydd yn ddefnyddiol os bydd ymholiadau'n codi. Dim ond y marciau terfynol a'r dystiolaeth sydd angen eu cyflwyno ar gyfer cymedroli allanol.

Unwaith y bydd marciau wedi'u cyflwyno i'w cymedroli, ni chaniateir ailgyflwyno'r un asesiad eto. Un cyfle sydd ar gael i'r dysgwyr i ailsefyll yr asesiad yng nghyfresi asesu'r dyfodol. Wrth ailsefyll asesiad, rhaid i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio briff yr asesiad a ryddhawyd ar gyfer y gyfres honno. (gweler Adran 5.4).

## 3.5 Camymddwyn

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer TAAU Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am unrhyw achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

© WJEC CBAC Ltd 2026

# 4 Gwybodaeth dechnegol

## 4.1 Cofrestriadau unedau

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu mis Ionawr a mis Mehefin bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y cymhwyster.

Bydd Unedau 1 a 2 ar gael ym mis Ionawr 2028 (ac ym mhob cyfres mis Mehefin a mis Ionawr wedi hynny). Bydd Unedau 3 a 4 ar gael ym mis Ionawr 2029 (ac ym mhob cyfres mis Mehefin a mis Ionawr wedi hynny).

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno'r uned berthnasol sydd i'w gweld isod.

| | | Codau Cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
| Uned 1 | Asesiad allanol (prawf sector) | | |
| Uned 2 | Asesiad di-arholiad allanol | | |
| Uned 3 | Asesiad di-arholiad | | |

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

## 4.2 Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2029.

Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy’r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

| | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|
| Cod Cyfnewid | | |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 4.3 Graddio ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TAAU a'r unedau maen nhw'n eu cynnwys yn cael eu hadrodd ar raddfa chwe phwynt: Lefel 2 Rhagoriaeth* (L2RH*) Lefel 2 Rhagoriaeth (L2RH), Lefel 2 Teilyngdod (L2T), Lefel 2 Llwyddiant (L2LL), Lefel 1 Teilyngdod (L1T), Lefel 1 Llwyddiant (L1LL).

Adroddir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) ac maen nhw'n cyfateb i'r graddau canlynol:

| | Uchafswm | L2RH* | L2RH | L2T | L2LL | L1T | L1LL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 80 | 72 | 64 | 56 | 48 | 40 | 32 |
| Uned 2 | 80 | 72 | 64 | 56 | 48 | 40 | 32 |
| Uned 3 | 240 | 216 | 192 | 168 | 144 | 120 | 96 |
| Uned 4 | 240 | 216 | 192 | 168 | 144 | 120 | 96 |

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y cyfanswm hwn.

| | Uchafswm | L2RH* | L2RH | L2T | L2LL | L1T | L1LL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster | 400 | 360 | 320 | 280 | 240 | 200 | 160 |

Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Lefel 1 Llwyddiant yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

## 4.4 Ailsefyll asesiadau unedau

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob asesiad uned allanol (wedi'i farcio gan CBAC) ddwywaith (tri chynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r tri chynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob asesiad uned mewnol (wedi'i farcio gan y ganolfan) unwaith (dau gynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Wrth ailsefyll asesiad, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno asesiad newydd, wedi'i gwblhau o fewn yr un lefelau rheolaeth. Ni chânt wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

Os bydd ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer asesiad ond ei fod yn absennol (a), nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Os cofnodir bod ymgeisydd wedi cael ‘0’ marc, yna tybir nad oedd y dystiolaeth a gynhyrchwyd i'w hasesu yn haeddu marciau; bydd hyn yn cyfrif fel ymgais.

Wrth ailsefyll asesiad, ar yr amod nad yw'r ymgeisydd wedi defnyddio mwy na'r nifer mwyaf o gynigion, bydd marciau o'r unedau eraill yn cael eu trosglwyddo.

Os bydd ymgeisydd yn mynd dros y nifer o gynigion ar gyfer unrhyw asesiad, yna bydd gofyn iddyn nhw ailwneud y cymhwyster.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 4.5 Ailwneud y cymhwyster

Os bydd ymgeisydd yn cofrestru am asesiad uned allanol (wedi'i farcio gan CBAC) am y pedwerydd tro neu asesiad uned mewnol (wedi'i farcio gan y ganolfan) am y trydydd tro, yna mae'n rhaid ailgofrestru ac ailsefyll pob asesiad.

Wrth ailwneud cymhwyster, gall ymgeisydd gael hyd at dri chynnig ar bob asesiad mewnol a hyd at dri chynnig ar bob asesiad allanol. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn ailsefyll wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Atodiad A: Cyfleoedd i fewnblannu elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r tabl isod yn dangos ble mae'r cymhwyster yn cynnig cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gwybodaeth fanylach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu: Canllawiau Cyflwyno'r Unedau.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3 1.2.2, 1.2.3, 1.5.1, 1.5.3 | 2.1.1, 2.1.2, 2.2.1, 2.3.1, 2.3.2 | 3.1.1, 3.2.2, 3.2.3 | 4.1.1, 4.1.2, 4.1.4, 4.1.5, 4.2.1,4.3.2 |
| Cynaliadwyedd | 1.1.1, 1.1.3, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.4.1 | 2.1.2, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2 | 3.1.3, 3.1.4, 3.2.5 | 4.1.1, 4.1.3, 4.1.4, 4.1.5, 4.2.3, 4.3.2, 4.3.4 |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | 1.2.1, 1.2.2, 1.3.1, 1.4.1 | 2.2.1, 2.2.2, 2.3.3 | 3.1.3, 3.1.4 | 4.3.3 |
| Addysg Hawliau Dynol | 1.1.1, 1.2.1, 1.2.2, 1.3.1, 1.3.2, 1.4.1 | 2.1.1, 2.1.3, 2.2.1, 2.3.3 | 3.1.1, 3.2.1 | 4.1.1, 4.1.3, 4.1.4, 4.1.5 |
| Profiadau sy'n Gysylltiedig â Gyrfaoedd a Gwaith | 1.1.3, 1.4.1, 1.4.2, 1.4.3, 1.5.1, 1.5.2, 1.5.3 | 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3 | 3.1.1, 3.2.2, 3.2.3, 3.2.5 | 4.2.2, 4.3.2 |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Llythrennedd | | | | |
| Gwrando | 1.1.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.4.1 | 2.2.1, 2.2.2 | 3.3.3 | 4.3.2, 4.3.3 |
| Darllen | 1.1.1, 1.1.2, 1.2.1, 1.3.1, 1.3.2, 1.5.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.2.3 | 3.1.2, 3.2.4 | 4.2.1, 4.3.2 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| Siarad | 1.1.3, 1.2.2, 1.4.1, 1.4.3 | 2.2.1, 2.3.3 | 3.3.3 | 4.3.2, 4.3.3 |
| Ysgrifennu | 1.1.1, 1.1.2, 1.2.1, 1.3.2, 1.5.1, 1.5.3 | 2.1.3, 2.2.3, 2.3.1 | 3.3.1, 3.3.3 | 4.2.3, ,4.3.2, 4.3.4 |

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Rhifedd | | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | 1.1.1, 1.1.3, 1.2.1, 1.5.1 | 2.1.1, 2.1.2, 2.3.1, 2.3.2 | 3.2.3, 3.2.4, 3.3.3 | 4.2.1, 4.3.4 |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | 1.1.1, 1.1.3, 1.2.1, 1.5.1 | 2.1.1, 2.1.2, 2.3.1, 2.3.2 | 3.2.3, 3.2.4 | 4.2.1 |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | 1.2.1, 1.2.2, 1.4.2 | 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1 | 3.2.2, 3.2.3 | 4.3.2 |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | 1.1.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.2, 1.5.1 | 2.1.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3 | 3.2.4, 3.3.3 | 4.3.4 |
| Cymhwysedd Digidol | | | | |
| Dinasyddiaeth | 1.3.1, 1.3.2, 1.4.1, 1.5.2 | 2.1.1, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.3 | 3.1.3 | 4.1.5, ,4.3.2, 4.3.3 |
| Rhyngweithio a Chydweithio | 1.2.2, 1.2.3, 1.4.2 | 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3 | 3.3.2 | 4.3.2, 4.3.3 |
| Cynhyrchu | 1.1.2, 1.2.1, 1.3.2, 1.5.1 | 2.1.2, 2.2.3 | 3.3.1, 3.3.3 | 4.2.3, ,4.3.2, 4.3.4 |

© WJEC CBAC Ltd 2026

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | 1.1.1, 1.2.3, 1.3.2 | 2.1.1, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3 | 3.2.4, 3.3.3 | 4.2.1, 4.3.4 |

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| Sgiliau Cyfannol | | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | 1.1.3, 1.3.2, 1.4.3, 1.5.3 | 2.1.2, 2.2.3 | 3.3.1 | 4.2.3, 4.3.2 |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | 1.1.1, 1.2.2, 1.3.1, 1.4.3 | 2.1.1, 2.2.2, 2.3.3 | 3.2.4, 3.3.3 | 4.3.2, 4.2.3, 4.3.4 |
| Cynllunio a Threfnu | 1.2.3, 1.4.2, 1.5.3 | 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1 | 3.3.1, 3.3.2 | 4.3.2 |
| Effeithiolrwydd Personol | 1.3.1, 1.4.1, 1.4.3, 1.5.2 | 2.1.3, 2.2.2, 2.3.3 | 3.1.1, 3.3.2 | 4.3.2, 4.3.3 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

FOR CENTRES IN WALES:
www.wjec.co.uk
Facebook - WJEC_CBAC
Twitter - @WJEC_CBAC
Instagram - @WJECforstudents

Email: info@wjec.co.uk
Telephone: 029 2026 5000